Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Crynodeb Gweithredol o'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae

## Y Sefyllfa o Ran Cyfleoedd Chwarae yn Rhondda Cynon Taf

2025

RHONDDA CYNON TAF

# Cynnwys


3 1. Datganiad: Crynodeb yr Awdurdod Lleol

21 2. Methodoleg

24 3. Y modd mae ymgysylltu â phlant a theuluoedd wedi llywio'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae

55 4. Gwneud y gorau o adnoddau

63 5. Monitro

67 6. Casgliad

73 Atodiad


RHONDDA CYNON TAF

# 1. Datganiad: Crynodeb yr Awdurdod Lleol

Mae Cymru wedi arloesi deddfwriaeth chwarae yn rhan o Fesur Plant a Theuluoedd (Cymru) 2010, a hynny yn sgil y ffaith bod dyletswydd statudol wedi'i rhoi ar bob Awdurdod Lleol i asesu lefel y cyfleoedd chwarae yn eu hardal bob 3 blynedd o 2012 ymlaen, ynghyd â'r ddyletswydd i sicrhau cyfleoedd i chwarae o 2014 ymlaen. Llywodraeth Cymru oedd y llywodraeth gyntaf yn y byd i amddiffyn hawl plant i chwarae, mewn cyfraith.

Mae hawl plant i chwarae wedi'i chynnwys yn Erthygl 31 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn (CCUHP), y cytundeb hawliau dynol sy'n cael ei gydnabod yn fwyaf cyffredin, a gafodd ei fabwysiadu yn ffurfiol gan Llywodraeth Cymru yn 2004:

**Erthygl 31 – Hamdden, chwarae a diwylliant**
Mae gan blant yr hawl i ymlacio a chwarae, ac i gymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau diwylliannol, artistig a gweithgareddau hamdden eraill.

**Erthygl 15 – Rhyddid i ymgysylltu**
Mae gan blant yr hawl i gyfarfod â'i gilydd ac i ymuno â grwpiau.

**Erthygl 12 – Parchu safbwyntiau'r plentyn**
Pan fydd oedolion yn gwneud penderfyniadau sy'n effeithio ar blant, mae gan blant yr hawl i fynegi eu barn ar yr hyn a ddylai ddigwydd.

# Datganiad: Crynodeb yr Awdurdod Lleol

Mae Cyngor Rhondda Cynon Taf hefyd yn cydnabod ac yn atgyfnerthu'r hawliau yma'n llawn. Mae manteision chwarae yn cael eu cydnabod yn eang ac felly mae chwarae'n treiddio i sawl strategaeth genedlaethol allweddol sy'n gonglfeini o ran Cynllun Corfforaethol y Cyngor 2024-2030, a nifer o bolisïau'r Cyngor. Yr hyn sy'n cael ei ddatgan yn Strategaeth Tlodi Plant Cymru (2024) yw bod "Cyfleoedd chwarae o ansawdd uchel yn hanfodol i ddatblygiad emosiynol a chorfforol pob plentyn". Mae'r Cyngor yn rhannu'r gred yma ac un o'r blaenoriaethau corfforaethol yw sicrhau bod modd i bob preswylydd, gan gynnwys plant a phobl ifainc, ofalu am eu hiechyd a'u lles, fel bod modd iddyn nhw fyw bywydau iach, annibynnol sy'n rhoi boddhad. Mae'r Cyngor hefyd yn ymdrechu i fod yn gefn i blant a theuluoedd ddatblygu, bod yn iach, a mwynhau gweithgareddau ac yn sgil hyn mae cyfleusterau a chyfleoedd chwarae da yn gonglfeini allweddol. Yn ogystal, mae pwysigrwydd yr hawl i chwarae wedi'i wreiddio yng Nghynllun Llesiant rhanbarthol Cwm Taf sydd â'r nod o greu Cwm Taf Morgannwg mwy cyfartal:

## Mannau Iach

Mae cyfleoedd gwych i gadw'n heini ac yn iach yn ein cymuned, ond mae cyfraddau gweithgarwch corfforol yn isel, mae gennym lefelau uchel o ddiabetes a gordewdra, ac mae pobl mewn cymdogaethau mwy difreintiedig yn llai tebygol o wneud defnydd o'r mannau gwyrdd a glas o'n cwmpas. Mae cael mannau lleol diogel a chyfleoedd fforddiadwy i fod yn heini yn bwysig, gan gynnwys mannau chwarae ar gyfer plant a phobl ifainc.

# Datganiad: Crynodeb yr Awdurdod Lleol

Mae RhCT yn cydnabod gwerth cynhenid chwarae ym mywydau plant; ein gweledigaeth ni yw y dylai plant a phobl ifainc: cael hwyl; mwynhau eu plentyndod a mwynhau bod yn ifanc; dysgu; a datblygu sgiliau bywyd drwy gymryd rhan mewn ystod o gyfleoedd o ansawdd uchel yn ymwneud â chwarae, hamdden, chwaraeon a diwylliant, sy'n dathlu amrywiaeth o ran diddordebau ac anghenion plentyn neu berson ifanc. O ystyried hyn, cydweithiodd cynrychiolwyr o 28 o feysydd gwasanaeth y Cyngor i asesu digonolrwydd cyfleoedd chwarae, gwerthuso meysydd cryfder a nodi bylchau y mae gofyn mynd i'r afael â nhw er mwyn gofalu bod y weledigaeth yma'n cael ei gwireddu. Yn rhan o'r asesiad yma roedd gwerthusiad CMG (Coch, Oren, Gwyrdd) o'r 99 maen prawf mae Llywodraeth Cymru wedi'u nodi sy'n ymwneud â 9 Mater/Datganiad sy'n ofynnol at ddibenion cyflawni digonolrwydd cyfleoedd chwarae. Mae dadansoddiad o'r rhain wedi'u crynhoi yn y tabl isod:

| Sgoriau Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae | Canran y sgoriau yn unol â Meini Prawf Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae | | Gwahaniaeth |
|---|---|---|---|
| | 2022 | 2025 | |
| Gwyrdd | 59% | 73% | +14% |
| Oren | 23% | 27% | +4% |
| Coch | 18% | 0% | -18% |

# Datganiad: Crynodeb yr Awdurdod Lleol



Yn gyffredinol, mae wedi dod yn amlwg o’r dadansoddiad yma bod RhCT wedi gwneud cynnydd da o ran y rhan fwyaf o'r meini prawf digonolrwydd cyfleoedd chwarae, yn benodol felly cynnydd o ran y meini prawf oedd wedi'u graddio'n flaenorol yn 'coch'. Fodd bynnag, mae'n amlwg o'r hunanasesiad yma bod gofyn gwneud cynnydd o hyd mewn rhai meysydd.

O 2025 ymlaen mae Llywodraeth Cymru wedi categoreiddio pob un o'r 9 Mater/Datganiad yn 4 thema; cafodd y themâu yma eu defnyddio at ddibenion nodi cryfderau cyffredinol a'r meysydd i'w datblygu yn dilyn y broses asesu. Mae modd gweld dadansoddiad Cryfderau, Gwendidau, Cyfleoedd a Bygythiadau (CGCB) manylach o ran y themâu yma yn Atodiad 1.

# Crynodeb o Ddeilliannau

| Thema | Materion Cysylltiedig | Canran Statws CMG | | |
|---|---|---|---|---|
| | | Coch | Oren | Gwyrdd |
| **Poblogaeth** | **Mater A:** Nifer y plant o ran pob ystod oedran o fewn ardal yr ALl<br>**Mater B:** Anghenion plant o wahanol ddiwylliannau a chefndiroedd yn ei ardal<br>**Mater D:** P'un a oes tâl am ddarpariaeth chwarae a pha leoliadau sy'n codi tâl | 0% | 50% | 50% |
| **Lleoedd lle mae plant yn chwarae** | **Mater C:** Y lle sydd ar gael i blant chwarae, gan gynnwys mannau agored, ac unrhyw fannau eraill<br>**Mater Dd:** Mesurau traffig sy'n cael eu defnyddio at ddibenion hyrwyddo mynediad at chwarae<br>**Mater Ff:** I ba raddau y mae ystyriaeth yn cael ei rhoi mewn polisïau addysg a chynllunio datblygu lleol i'r angen i wella cyfleoedd chwarae i blant | 0% | 23% | 77% |
| **Darpariaeth Dan Oruchwyliaeth** | **Mater Ch:** Darpariaeth chwarae dan oruchwyliaeth<br>**Mater E:** Hyfforddiant gwaith chwarae a datblygu'r gweithlu | 0% | 30% | 70% |
| **Synergedd Polisi, Ymgysylltu, Eiriolaeth a Gwybodaeth** | **Mater Dd:** Mesurau sy'n cael eu defnyddio at ddibenion hyrwyddo mynediad at gyfleoedd chwarae, gan gynnwys darparu gwybodaeth, cyhoeddusrwydd ac achlysuron<br>**Mater E:** Cyfleoedd hyfforddi ar gyfer y gweithlu chwarae<br>**Mater F:** Lefelau'r ymgysylltu â'r gymuned a'i chynnwys<br>**Mater Ff:** I ba raddau y mae ystyriaeth yn cael ei rhoi mewn polisïau addysg a chynllunio datblygu lleol i'r angen i wella cyfleoedd chwarae i blant | 0% | 14% | 86% |

# Thema 1: Poblogaeth

Yr hyn sydd wedi dod i'r amlwg yn sgil yr asesiad yw bod darpariaethau chwarae a phobl ifainc mynediad agored yn cynnig amgylcheddau cynhwysol, gyda'r Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid yn elwa o wneud y newidiadau hynny roedd wedi'i gynghori i'w rhoi ar waith yn dilyn Archwiliad Synhwyraidd o bob clwb Ieuenctid mae'r Cyngor yn ei gynnal. Mae'r angen i ymestyn yr adolygiad dan sylw i fod yn cwmpasu'r ddarpariaeth mynediad agored sydd wedi'i chomisiynu, wedi'i amlygu yn yr asesiad yma, felly hefyd yr angen i sicrhau cysondeb wrth gynnal archwiliadau mynediad a chyfeirio at wybodaeth o'r fath ar hyd ystod yr holl ddarpariaeth mynediad agored.

Mae'r Cyngor wedi cyflwyno sesiynau prosiect Chwarae Addasu; mae'r rhain yn sesiynau chwarae penodol sy'n fodd o ddarparu ar gyfer plant a phobl ifainc sydd ag anghenion ychwanegol. Mae'r rhain yn eu dyddiau cynnar o hyd, ond mae'r adborth gan deuluoedd hyd yn hyn wedi bod yn gadarnhaol dros ben. Yn ôl yr asesiad mae angen i'r rhain gael eu datblygu ymhellach a bod ar gael yn fwy rhwydd o ran amlder a lleoliad; mae gofyn defnyddio data poblogaeth i gynllunio sesiynau wedi'u targedu i ddiwallu anghenion defnyddwyr y gwasanaeth. Mae'n amlwg o'r ymgynghori bod gofyn ystyried anghenion plant anabl ymhellach o ran materion hygyrchedd a chynhwysiant parciau a mannau chwarae.

Mae gofynion plant sy'n siarad Cymraeg yn cael eu hystyried yn gyson gan y Cyngor yn ei gynllunio; mae'r Gwasanaeth Ieuenctid yn comisiynu gweithgareddau cyfoethogi'r iaith Gymraeg a fforymau ieuenctid. Fodd bynnag, mae prinder amlwg o ddarparwyr Chwarae ac Ieuenctid Cymraeg. Canlyniad hyn yw, er bod gofynion yn cael eu hystyried, dydyn nhw ddim yn cael eu diwallu'n gyson.

| RAG Statws | Nifer y Meini Prawf |
|---|---|
| Coch | 0 |
| Oren | 9 |
| Gwyrdd | 9 |

# Thema 2: Y Lleoedd Sydd Ar Gael I Blant Chwarae

Mae'n amlwg o ymgynghori â'r holl randdeiliaid bod chwarae'n cael ei werthfawrogi a bod plant, pobl ifainc a'u teuluoedd eisiau mannau diogel i blant chwarae ynddyn nhw. Yn ôl yr asesiad mae ystod eang o leoedd dynodedig lle mae modd i blant chwarae ledled RhCT, yn eu plith 217 o fannau chwarae â chyfarpar sefydlog, mwy na 20 o Ardaloedd Gemau Aml-ddefnydd (AGAdd), yn ogystal â meysydd chwarae a mannau agored. Mae'r Cyngor yn cynnal Asesiadau o Fannau Agored, gan gynhyrchu asesiad o angen ac archwiliad o ddarpariaeth sy'n cwmpasu cyfleoedd i chwarae; mae hyn yn cael ei adolygu ar hyn o bryd at ddibenion cyfrannu at y Cynllun Datblygu Lleol.

Dechreuodd buddsoddiad CBSRhCT mewn mannau chwarae plant yn 2015, ac ers hynny mae RhCT wedi ymrwymo bron i £6 miliwn o fuddsoddiad cyfalaf. Mae'r cyllid yma wedi cael ei ddefnyddio i wella cyfleoedd chwarae yng nghymunedau RhCT, gan wella'r profiadau chwarae mewn mannau chwarae i blant yn sylweddol felly.   Rhwng 2022 a 2025, fe arweiniodd buddsoddiad Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf o £1.8 miliwn mewn cyllid cyfalaf at gwblhau 41 o brosiectau. Ymhlith y rhain roedd adnewyddu rhai mannau chwarae’n llwyr, yn ogystal â gwneud gwelliannau gyda’r nod o gynyddu gwerth chwarae a chyfleoedd i bob plentyn chwarae gyda’i gilydd, gyda ffocws penodol ar hygyrchedd a chyfleoedd chwarae cynhwysol. Yn ogystal, roedd y cyllid yma'n fodd o atgyfnerthu datblygiad chwe AGAdd a pharc sglefrio.

| RAG Statws | Nifer y Meini Prawf |
|---|---|
| Coch | 0 |
| Oren | 7 |
| Gwyrdd | 23 |

Er mwyn cydbwyso risg a chwarae, mae pob ardal chwarae yn RhCT yn cael ei harchwilio a'i chynnal a'i chadw'n drylwyr gan garfan fechan o unigolion cymwys sydd wedi cymhwyso. Mae pob darpariaeth hefyd yn destun archwiliad diogelwch blynyddol annibynnol ac asesiad gwerth chwarae; mae'r canfyddiadau yma'n cael eu defnyddio i lywio'r rhaglen buddsoddi cyfalaf.



Adnewyddu'r canlynol yn llwyr:
Parc Heol y Twyn, Ystrad



Parc Stryd y Celyn, Rhydfelen:
Ychwanegu graffeg a gemau i wella
cyfleoedd chwarae

# Crynodeb o Ddeilliannau

## Thema 2: Y Lleoedd Sydd Ar Gael I Blant Chwarae






Teras Martin, Abercynon:
Gwella Cynhwysiant a Hygyrchedd



Ardal Gemau Aml-ddefnydd Parc Penygraig

# Crynodeb o Ddeilliannau



Mae'n amlwg o'r asesiad bod Gwasanaeth Strategaeth Diogelwch y Ffyrdd a Thrafnidiaeth wedi rhoi sylw i flaenoriaethau Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae ac wedi cyflawni ystod o fentrau â'r nod o wella diogelwch ffyrdd. Cafodd cyllid Llwybrau Diogel mewn Cymunedau (LIDMC) a gafodd ei ddyfarnu gan Llywodraeth Cymru ei ddefnyddio at ddibenion gweithredu cynllun LIDC ym mhentref Hirwaun yn 2024-2025. Ymhellach, mae Carfan Diogelwch y Ffyrdd, mewn partneriaeth â Chwaraeon RhCT, wedi cyflawni'r canlynol yn 2024-2025, gyda chynlluniau i ymestyn hyn ymhellach yn 2025-2026:

- Hyfforddiant Beicio Safonau Cenedlaethol i fwy na 500 o ddisgyblion Blwyddyn 6
- Hyfforddiant beicio cydbwysedd i ddisgyblion oedran y babanod o'r dosbarth derbyn hyd at Flwyddyn 2

Mae Carfan Diogelwch y Ffyrdd hefyd wedi comisiynu sefydliadau allanol i roi cymorth o ran cyflenwi mentrau megis Hyfforddiant Cerddwyr sy'n Blant drwy Kerbcraft a gafodd ei gyflwyno i fwy na 600 o ddisgyblion 5-7 oed.

Mae'r Cyngor hefyd wedi cyhoeddi Map Rhwydwaith Teithio Llesol; arno mae ein dyhead i ddatblygu rhwydwaith o lwybrau cerdded a beicio ar draws RhCT yn cael ei nodi. Wrth symud ymlaen, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddefnyddio'r datblygiadau yma i ymgorffori cyfleoedd i chwarae ar hyd llwybrau teithio llesol, gyda chynlluniau pellach i weithio mewn partneriaeth â Chwaraeon a Hamdden i hyrwyddo'r rhwydweithiau yma.

"Mae'r plant iau wedi gwella eu cydbwysedd ac wedi magu hyder. Mae'r offer wedi gwella eu hymwybyddiaeth ofodol wrth symud o amgylch yr ystafell ddosbarth, ac rydyn ni wedi sylwi ar gynnydd yn eu sgiliau cerdded (cydbwyso), neidio a gwneud penderfyniadau. Mae'r offer hefyd wedi bod yn wych ar gyfer plant sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol sydd â Chynlluniau Datblygu Unigol gan ein bod ni'n caniatáu amser ychwanegol iddyn nhw ddefnyddio'r offer. Mae rhai o'r plant yma'n ei chael hi'n anodd ymdopi mewn dosbarth mawr, ond maen nhw'n elwa ar gael defnyddio'r offer."
Adborth athrawon yn dilyn cyflwyno hyfforddiant beicio cydbwysedd.

# Thema 3: Darparu Cyfleoedd Dan Oruchwyliaeth

Mae’r asesiad yn dangos bod darparwyr mewnol (Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid) a darparwyr Trydydd Sector yn bodoli, sydd wedi'u sefydlu ers tro sy'n darparu ystod eang o gyfleoedd chwarae a chyfleoedd ieuenctid mynediad agored. Mae darpariaeth mynediad agored ac sy'n cael ei gynnal / gomisiynu gan y Cyngor yn fodd o ddarparu cyfanswm o 16 darpariaeth chwarae mynediad agored a 22 o ddarpariaethau ieuenctid mynediad agored yn ystod y tymor ac yn ystod gwyliau'r ysgol. Mae'r Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid (GYChI) hefyd yn darparu amrywiaeth o weithgareddau a theithiau mynediad agored ar ôl ysgol ac yn ystod y gwyliau. Mae'r gwasanaeth Celfyddydau a Diwylliant hefyd yn cynnig amrywiaeth o gyfleoedd creadigol y mae modd i blant a phobl ifainc ymgysylltu â nhw. Ymhellach, mae Chwaraeon a Hamdden yn darparu ystod eang o weithgareddau yn ystod y tymor a'r gwyliau, gyda chyfanswm o 12,184 o gyfranogwyr yn 2024-2025. Ers 2022 mae'r gwasanaethau isod hefyd wedi bod yn bellgyrhaeddol eu natur ledled RhCT:


- Chwarae (partneriaid sydd wedi eu comisiynu)
- 105,366 Presenoldeb cyffredinol
- Gwasanaethau Ieuenctid (GYChI a phartneriaid wedi'u comisiynu)
- 256,255 Presenoldeb cyffredinol
- Data o ran y celfyddydau: 18,954 Presenoldeb cyffredinol
- Siarad a Chwarae – 24,967

| RAG Statws | Nifer y Meini Prawf |
|---|---|
| Coch | 0 |
| Oren | 7 |
| Gwyrdd | 16 |

Yn ystod 2024, cafodd Cynllun Sicrhau Ansawdd ei greu gyda'r nod o wella ansawdd a chysondeb cyfleoedd chwarae ar hyd ystod darpariaethau chwarae mynediad agored. Wrth symud ymlaen, y bwriad yw ymgorffori'r broses yma ar hyd ystod darpariaethau mynediad agored chwarae ac ieuenctid er mwyn sicrhau bod amgylcheddau chwarae cyfoethog yn cael eu cynnig i blant a phobl ifainc.

# Crynodeb o Ddeilliannau





**Mater E:** Sicrhau'r Gweithlu Chwarae yw'r maes sydd wedi gweld y newid mwyaf cadarnhaol ers 2022. Mae'r Gwasanaeth Datblygu Chwarae yn cynnal archwiliad gweithlu Chwarae blynyddol, ac mae'r canlyniadau yn cael eu defnyddio at ddibenion pennu ar raglen o gyfleoedd hyfforddi am ddim ar gyfer y gweithlu Chwarae. Fodd bynnag, mae'r grŵp ffocws archwilio a Darparwyr Cyfleoedd Chwarae wedi tynnu sylw at y ffaith bod y costau mynychu hyfforddiant yn rhwystr sylweddol o ran ymgymryd â hyfforddiant. Mae'n amlwg o'r asesiad hefyd bod gofyn efelychu'r archwiliad gweithlu gyda'r darparwyr Ieuenctid sydd wedi'u comisiynu, gan sicrhau eu bod yn cael cyfleoedd hyfforddi teg i wella ansawdd a chysondeb y ddarpariaeth sy'n cael ei chynnig.

Mae manteision cyfleoedd chwarae yn sail i waith ymyrraeth gynnar ac ataliol y Blynyddoedd Cynnar ar hyd ystod Gwasanaethau megis Ymyraethau Rhianta, Siarad a Chwarae, Dechrau'n Deg a gwasanaeth newydd ei sefydlu, Creu Cydnerthedd ar gyfer Lles Emosiynol (CREW) sy'n darparu ymyrraeth 1-1 ar gyfer plant 8-11 oed; gan ddefnyddio therapi chwarae i feithrin cydnerthedd a defnyddio darpariaeth chwarae ac ieuenctid mynediad agored yn strategaeth ymadael er mwyn ymgysylltu â gwasanaethau cyffredinol a pharhau i elwa o gyfrannu mewn darpariaeth dan oruchwyliaeth gyda gweithwyr Chwarae ac Ieuenctid cymwys.

# Thema 4: Synergedd Polisi, Ymgysylltu, Eiriolaeth a Gwybodaeth

Mae pwysigrwydd Chwarae yn treiddio i bolisïau allweddol y Cyngor; mae hyn yn fodd o sicrhau bod yr effaith ar chwarae yn cael ei hystyried ar hyd ystod sawl gwasanaeth megis Tai, Cynllunio, Traffig ac Iechyd a Diogelwch. Roedd presenoldeb da mewn Gweithdy Gweithredu Chwarae, a chafodd adborth cadarnhaol (Adran 2); mae hyn yn dangos ymrwymiad cynyddol i gyflawni digonolrwydd cyfleoedd chwarae trwy gydweithio ledled gwasanaethau'r Cyngor. Er ei bod yn amlwg bod pwysigrwydd chwarae yn cael ei ystyried ar adegau, mae hyn yn anghyson ar hyd ystod meysydd gwasanaeth. O ganlyniad i hyn, bydd y Cyngor yn cynnig sesiwn ymwybyddiaeth o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae ar gyfer gwneuthurwyr penderfyniadau allweddol; bydd creu pecyn hyfforddi ar-lein pwrpasol at ddibenion creu Hyrwyddwyr Cyfleoedd Chwarae ym mhob maes gwasanaeth hefyd yn fodd o gyfrannu at gyflawni'r amcan yma.


Mae chwarae yn faes sy'n amlwg mewn achlysuron cymunedol felly hefyd y gwasanaethau sy'n ymwneud ag e; maen nhw'n cael eu defnyddio i hyrwyddo chwarae a chyfeirio at gyfleoedd chwarae. Mae RhCT yn cynnal Picnic y Tedis, Gŵyl Aberdâr, Cegaid o Fwyd Cymru, Diwrnodau Hwyl i'r Teulu yn ogystal â nifer o achlysuron eraill llai eu maint sy'n gyfleoedd hamdden am ddim neu gost isel i deuluoedd.


| RAG Statws | Nifer y Meini Prawf |
|---|---|
| Coch | 0 |
| Oren | 4 |
| Gwyrdd | 24 |

# Crynodeb o Ddeilliannau

## Thema 4: Synergedd Polisi, Ymgysylltu, Eiriolaeth a Gwybodaeth

Mae’n amlwg o’r asesiad bod gwefan a safleoedd cyfryngau cymdeithasol y Cyngor, sef Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd a Theuluoedd RhCT, yn cael eu defnyddio'n helaeth i hyrwyddo cyfleoedd chwarae a hamdden ar hyd ystod Gwasanaethau'r Cyngor; mae lefelau ymgysylltu'n uchel hefyd â gwefan a chyfryngau cymdeithasol GYChI ymhlith defnyddwyr gwasanaeth, ac mae'n fodd effeithiol o rannu gwybodaeth. Fodd bynnag, mae adborth wedi dangos bod modd i'r nifer uchel o achlysuron sydd ar gael, a'r ffaith bod meysydd gwasanaeth unigol yn hyrwyddo achlysuron o'r fath, lethu defnyddwyr gwasanaethau weithiau ac maen nhw felly'n llai effeithiol wrth hyrwyddo ymgysylltu. Felly, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i gasglu'r manylion ynghylch y cyfleoedd chwarae sydd ar gael ar hyd ystod meysydd gwasanaeth a chyhoeddi amserlen gryno gan ddefnyddio codau QR i gyfeirio pobl at y meysydd gwasanaeth perthnasol. Ymhellach, mae'r Cyngor yn bwriadu defnyddio achlysuron Cymunedol Corfforaethol i hyrwyddo cyfleoedd chwarae ymhellach, gan sicrhau nad yw hyrwyddo wedi'i gyfyngu i fod ar ar-lein yn unig. Ar thema argaeledd gwybodaeth, mae gwefan y Cyngor yn caniatáu i ddefnyddwyr gwasanaeth chwilio map rhyngweithiol i ddod o hyd i'w parc, cae chwaraeon neu ardal chwarae sefydlog agosaf. Fodd bynnag, ar hyn o bryd dyw hi ddim yn bosibl hidlo'r canlyniadau hyn i chwilio am barciau sy'n hygyrch ac yn gynhwysol, felly mae hyn wedi ei nodi yn gam gweithredu wrth symud ymlaen yn unol â'r themâu Poblogaeth a Lleoedd.



# Crynodeb o Ddeilliannau

## Thema 4: Synergedd Polisi, Ymgysylltu, Eiriolaeth a Gwybodaeth

Mae'n glir o'r asesiad a'r ymgynghoriad bod chwarae'n cael ei werthfawrogi'n fawr yn ystod y diwrnod ysgol, yn enwedig felly drwy gydol y Cyfnod Sylfaen a rhaglen fuddsoddi Ysgolion yr 21ain Ganrif, ac mae dyluniadau'n atgyfnerthu gwell cyfleoedd chwarae ym mhob tywydd. Mae rhai Ysgolion Cynradd a phob Ysgol Uwchradd yn cynnig amrywiaeth o weithgareddau ar ôl ysgol, serch hynny, mae'n amlwg o'r asesiad bod y cynnydd wedi'i gyfyngu o ran ysgolion yn darparu mynediad i diroedd ysgol ar gyfer chwarae y tu allan i oriau ysgol.

Yn ôl yr asesiad mae angen sicrhau bod meini prawf Digonolrwydd Cyfleodd Chwarae yn cael eu hystyried o fewn agenda Ysgolion Bro; bydd RhCT yn elwa o well gweithio mewn partneriaeth rhwng y Gwasanaeth Chwarae ac Ieuenctid, Chwaraeon ac Ysgolion Bro er mwyn treialu cynllun i agor ysgolion ar ddiwedd y dydd, gan ddefnyddio'r amser yma i ganiatáu cyfleoedd chwarae rhydd i blant tra bod Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd yn gwneud y mwyaf o'r cyfle i ymgysylltu â Rhieni a Gwarcheidwaid.

# Dyfodol Chwarae yn RhCT 2025 – 2028

O'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, mae'r canlynol wedi'u nodi yn flaenoriaethau allweddol:

- Cynyddu nifer y cyfleoedd chwarae yn y Gymraeg ar hyd ystod y meysydd yma: Ieuenctid, Chwarae, Hamdden a'r Celfyddydau a Diwylliant
- Cynyddu nifer ac ansawdd y cyfleoedd chwarae a hamdden i blant a phobl ifainc anabl.
- Gwella cynhwysiant a hygyrchedd mannau chwarae sefydlog
- Defnyddio adnoddau data megis Power BI i sicrhau bod y ddarpariaeth yn cael ei harwain gan anghenion a bod penderfyniadau'n seiliedig ar dystiolaeth.
- Ymgorffori Cynllun Sicrwydd Ansawdd i wella ansawdd a chysondeb darpariaeth chwarae mynediad agored
- Hyrwyddo a dathlu manteision a phwysigrwydd chwarae i gymunedau, plant, pobl ifainc a phob rhanddeiliad
- Ymgysylltu â'r adran Addysg i eirioli dros agor tiroedd ysgolion ar gyfer cyfleoedd i chwarae y tu hwnt i'r diwrnod ysgol
- Cyfoethogi cynlluniau teithio llesol drwy waith celf a chyfleoedd i chwarae
- Lliniaru pryderon ynghylch y ffaith bod traffig yn rhwystr mawr o ran chwarae yn yr awyr agored drwy gynnig rhagor o sesiynau diogelwch ffyrdd i blant a phobl ifainc

# 2. Methodoleg

Mae'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae wedi'i lywio gan wybodaeth o amrywiaeth o ffynonellau gan ddefnyddio amrywiol fethodolegau. Yn fan cychwyn i'r broses asesu, fe gafodd aelodaeth Grŵp Monitro Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae ei adolygu er mwyn gofalu bod cynrychiolaeth berthnasol yn rhan o'r grŵp o ran pob un o'r 9 Mater/datganiad a gafodd ei gyflwyno gan Lywodraeth Cymru yn ymwneud â sicrhau digonolrwydd cyfleoedd chwarae. Cafodd cynrychiolwyr o 28 o feysydd gwasanaeth y dasg o werthuso'r maen prawf allweddol drwy broses graddio CMG. Roedd hyn yn sail i'r asesiad; yna cafodd cryfderau, meysydd cynnydd a meysydd yr oedd angen eu datblygu ymhellach eu nodi.

RHONDDA CYNON TAF

# Methodoleg

Er mwyn asesu digonolrwydd chwarae yn effeithiol ledled RhCT a datblygu cynllun gweithredu clir, roedd cydweithio ag amrywiaeth o randdeiliaid yn hanfodol. I bwysleisio natur drawsbynciol y ddyletswydd statudol yma, cafodd Gweithdy Gweithredu ei gynnal ar y cyd gan Garfan Chwarae RhCT a Chwarae Cymru. Roedd cyfanswm o 19 o unigolion o amrywiaeth o adrannau'r Cyngor yn bresennol; cyfrannodd pob un at werthusiad CGCB o'r meini prawf asesu mewn perthynas â phob un o'r Materion Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a gafodd eu nodi gan Llywodraeth Cymru (atodiad 1), a oedd yn caniatáu i bob rhanddeiliad amlygu cryfderau presennol a nodi bylchau er mwyn blaenoriaethu camau gweithredu wrth symud ymlaen. Roedd canlyniadau'r arolygon ymgynghori a'r grwpiau ffocws yn hanfodol i'r gwerthusiad yma. Roedd yr ymarfer cydweithredol yma'n un cynhyrchiol; dangosodd adborth o holiaduron wedi'r gweithdy hyn:

- Nododd pawb a ymatebodd eu bod naill ai'n 'cytuno' neu'n 'cytuno'n gryf' bod y gweithdy wedi bod yn effeithiol wrth gynorthwyo dealltwriaeth o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae a chyfrifoldeb gwasanaeth mewn perthynas ag e.
- Cafodd pawb a ymatebodd eu gwahodd i raddio eu hyder a'u gwybodaeth ynghylch Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn RhCT o 1 – 5 (1 = dealltwriaeth gyfyngedig, 5 = Hyderus o ran dealltwriaeth). Cyn y gweithdy, roedd y sgôr gyfartalog yn 2.8, a gynyddodd 1.5 i gyfartaledd o 4.3 wedi'r gweithdy.

Mae'r trafodaethau a'r cydweithio o'r gweithdy yma wedi profi'n amhrisiadwy wrth gadarnhau camau gweithredu'r ADCCh .

"roedd rhwydweithio â chydweithwyr o adrannau eraill a chael eu mewnbwn i'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn ymarfer cynhyrchiol iawn"

"doedd gyda fi ddim gwybodaeth am yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae cyn dod i'r sesiwn. Roedd y cyflwynwyr yn ardderchog ac roeddwn i'n teimlo bod y gweithdy yn ddiddorol iawn ac yn mynnu ein sylw, ac roedd modd i bawb gyfrannu."

"diwrnod gwych, nifer fawr o syniadau y byddai modd i ni eu datblygu"

"Roeddwn i o'r farn bod y sesiwn yn addysgiadol, wedi'i chyflwyno'n dda ac yn hynod ddefnyddiol"

"[Gwnaeth y gweithdy] ail-ysbrydoli'r broses feddwl"

# Methodoleg

Yn ôl yr asesiad digonolrwydd mae angen i archwilio ystyr rôl chwarae o ran y diwrnod ysgol, felly fe ehangodd y gwasanaeth ei ymgynghoriad i gasglu barn Penaethiaid Ysgolion drwy arolwg ar-lein; daeth 50 o ymatebion i law, roedd hyn yn 54% o gyfanswm nifer ysgolion cynradd RhCT. Ymwelodd y Garfan Chwarae hefyd â 6 Chyngor Ysgol Gynradd (gan gynnwys ysgolion ffydd a Chymraeg) i gynnal grwpiau ffocws a chael rhagor o wybodaeth ansoddol ynghylch barn plant ar chwarae yn ystod y diwrnod ysgol.

Er bod y Cyngor wedi arwain y broses Asesu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, fyddai digonolrwydd ddim yn cael ei asesu'n drylwyr heb farn y Trydydd Sector, sydd wedi'u comisiynu i ddarparu cyfleoedd chwarae a chyfleoedd ieuenctid mynediad agored. Er mwyn deall cryfderau'r Gweithlu Chwarae, yr heriau a'r meysydd angen mae'n ei wynebu, a hynny mewn modd effeithiol, fe gynhaliodd y Cyngor archwiliad o'r gweithlu Chwarae gyda staff Chwarae o'r Trydydd Sector drwy holiadur ar-lein. Daeth 67 o ymatebion i law o ystod o 16 darpariaethau chwarae mynediad agored.

Gan fod y Trydydd Sector yn darparu gwasanaethau amhrisiadwy i gymunedau RhCT, cafodd grŵp ffocws ei gynnal gyda Darparwyr Cyfleoedd Chwarae er mwyn cael dealltwriaeth ansoddol bellach o'r hyn maen nhw'n ei ystyried yn gryfderau, rhwystrau a meysydd blaenoriaeth ar gyfer datblygu ledled RhCT ar hyn o bryd. Mae hyn, yn ogystal â ffurflenni data'r Gweithlu Chwarae, sylwadau gan y grŵp ffocws a sgyrsiau gyda Gweithwyr Chwarae yn ystod ymweliadau sesiwn, wedi bod yn fodd o ddarparu gwybodaeth amhrisiadwy sy'n caniatáu i'r Cyngor nodi anghenion hyfforddi a datblygu pecyn hyfforddi pwrpasol yn gam gweithredu i'w gario ymlaen.

# 3. Y modd y mae ymgysylltu â phlant a theuluoedd wedi llywio'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae

RHONDDA CYNON TAF

# Sut mae RhCT wedi ymgysylltu â phlant a theuluoedd?

Y modd y mae ymgysylltu â phlant a theuluoedd wedi llywio'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae

## Mae RhCT wedi ymgysylltu â:

**5**
Grwpiau Ffocws gyda Chynghorau Ysgolion Cynradd

**3**
Grwpiau Ffocws mewn Clybiau Ieuenctid

**681**
Plant a Phobl Ifainc a gwblhaodd 'Yr Arolwg Chwarae Mawr'

**5**
Grwpiau Ffocws gyda Rhieni a Gwarcheidwaid yn mynychu sesiynau prosiect Chwarae Addasu/Chwarae ar gyfer y sawl sydd ag anghenion ychwanegol

**1**
Grŵp ffocws gyda 10 Cynhaliwr Ifanc


**40**
Rhieni a Gwarcheidwaid a Gwblhaodd Arolwg Ar-lein


Sgyrsiau gyda Rhieni a Gwarcheidwaid plant sy'n cael cymorth 1-1 gan y Garfan Creu Cydnerthedd ar gyfer Lles Emosiynol (CREW)

Trosolwg o'r Ymgynghoriad

# Sut mae ymgysylltu â phlant a theuluoedd wedi llywio'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae

## Beth rydyn ni'n ei wybod am y rhai a ymatebodd i'r Arolwg Chwarae Mawr?






**Ward Tylorstown ac Ynys-hir oedd â'r nifer uchaf o ymatebion ar gyfer y grwpiau oedran 5 i 7 oed ac 8 i 11 oed**

# Ymatebion i'r Arolwg yn Ardaloedd Rhondda Cynon Taf

**Y modd y mae ymgysylltu â phlant a theuluoedd wedi llywio'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae**





# Wyt ti'n ystyried dy hun yn berson ag anabledd?




# Sut mae ymgysylltu â phlant a theuluoedd wedi llywio'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae


### Rhondda (195)





### Cynon (268)




### Taf (113)




### Dim modd nodi hyn (105)




Yn ogystal â'r setiau data a gafodd eu casglu o arolwg Y Chwarae Mawr, roedd y Cyngor yn cydnabod pwysigrwydd ategu hyn â thystiolaeth ansoddol; cafodd ei chasglu drwy gynnal sawl grŵp ffocws gyda phlant a phobl ifainc ('Sut mae RhCT wedi ymgysylltu â phlant a theuluoedd? ffeithlun'). Defnyddiodd y grwpiau ffocws yma gwestiynau oedd wedi'u lled-strwythuro i ganiatáu i'r cyfranogwyr arwain y drafodaeth; roedd hyn yn syniad a dalodd ar ei ganfed.

**Yr hyn y mae plant a phobl ifainc wedi'i ddweud wrthym ni:**


Mae Chwarae Cymru yn dweud bod modd atgyfnerthu cyfleoedd i blant chwarae, neu gyfyngu ar hyn, mewn tair prif ffordd:

> **Amser**
> **Y gofynion ar amser plant a sut y caiff ei strwythuro**
>
> **Lle**
> **Maint, dyluniad a rheolaeth y lle y gallai plant chwarae**
>
> **Caniatâd**
> **Ofn, disgwyliadau, goddefgarwch a'r ffordd y mae oedolion yn ystyried plentyndod a chwarae**
>
> **Chwarae Cymru**


Felly, y ffactorau hanfodol yma oedd sail y dadansoddiad o safbwyntiau plant a phobl ifainc.

## Pa mor aml wyt ti'n mynd allan i chwarae neu dreulio amser gyda ffrindiau?


**Y modd y mae ymgysylltu â phlant a theuluoedd wedi llywio'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae**





Dim ateb





Ychydig ddiwrnodau'r wythnos




Bron byth





Dydw i ddim yn chwarae nac yn treulio amser gyda ffrindiau y tu allan





Bron bob dydd


## Oes gen ti ddigon o amser i chwarae neu dreulio amser gyda ffrindiau?





Dim ateb





Nac oes, mae angen llawer mwy o amser arna i




Nac oes, hoffwn i gael ychydig mwy o amser




Oes, mae gen i lawer o amser




Oes, mae gen i ddigon o amser

## Oes gen ti ddigon o amser?

Mae'n amlwg o'r ymatebion bod mwyafrif y plant a phobl ifainc (bron i 80% o'r ymatebwyr) yn gwerthfawrogi ac yn croesawu cyfleoedd i chwarae a threulio amser gyda'i gilydd, ac yn gwneud hynny'n aml. I'r gwrthwyneb, yn achos 20% dydyn nhw 'bron byth' neu ddim yn chwarae neu yn treulio amser gyda ffrindiau. Mae'n amlwg o'r ymgynghoriad hefyd bod llawer o blant a phobl ifainc yn gallu cydnabod manteision y cyfleoedd yma, gyda Chyfranogwyr y Grŵp Ffocws Ieuenctid yn nodi bod yr amser yn hanfodol ar gyfer **“meithrin cyfeillgarwch”**, **“cadw’n heini”**, **“dysgu sgiliau newydd”** a **“helpu gydag iechyd meddwl”**.

Mae'n amlwg o'r arolwg bod plant a phobl ifainc yn gynyddol yn dewis chwarae neu dreulio amser mewn mannau preifat megis cartrefi a gerddi, er ei bod hi'n amlwg bod pobl ifainc yn gwerthfawrogi mynediad at fannau agored a mannau chwarae o hyd. Yr hyn sy'n cael ei awgrymu o'r arolwg yw mai darpariaeth dan oruchwyliaeth megis clybiau ieuenctid yw'r rhai lleiaf poblogaidd, er bod hyn yn adlewyrchiad o ddemograffeg yr arolwg gan mai 8 oed oedd oedran cyfartalog y grŵp ymateb*. Dywedodd cyfranogwyr y Grŵp Ffocws Ieuenctid mai clybiau ieuenctid, ochr yn ochr â Mannau Gemau Aml-ddefnydd/caeau chwaraeon, oedd y lleoedd oedd orau ganddyn nhw ar gyfer treulio amser, gyda llawer yn mynegi awydd i gynyddu nifer darpariaethau a gweithgareddau o'r fath.

## Pan nad wyt ti yn yr ysgol, pa fath o leoedd hoffet ti chwarae neu dreulio amser ynddyn nhw?

Hoff le i chwarae ynddo


| Lle | Nifer |
|---|---|
| Yn fy nhŷ i neu yn nhŷ ffrind | 526 |
| Ar gae pêl-droed ger fy nhŷ | 267 |
| Mewn parc beicio neu barc sglefrio | 213 |
| Rhywle arall (dyweda wrthyn ni ble) | 81 |
| Mewn ardal chwarae gyda siglenni, llithrennau ac offer chwarae eraill | 458 |
| Mewn parc chwarae antur neu gynllun chwarae | 261 |
| Rhywle gyda dwr neu dywod ynddo | 196 |
| Mewn clwb ieuenctid | 71 |
| Yn y strydoedd ger fy nhŷ | 343 |
| Mewn clwb ar ôl ysgol | 247 |
| Mewn canolfan y gymuned neu ganolfan hamdden | 179 |
| Dim ateb | 4 |
| Yn fy ngardd i neu yng ngardd ffrind | 335 |
| Mewn canolfan chwarae dan do | 243 |
| Mewn ardal lle mae llwyni, coed a blodau | 175 |
| Ar faes chwarae fy ysgol | 318 |
| Mewn ardal laswelltog leol | 229 |
| Yn y goedwig ger fy nhŷ | 133 |

**Cyfanswm yr ymatebwyr 4275**

*Roedd modd i'r ymatebwyr ddewis sawl opsiwn


## Pa mor dda ydy'r lleoedd rwyt ti'n chwarae ynddyn nhw?

Ansawdd y lleoedd i chwarae




## Overall, how good are your opportunities for playing and hanging out?

Views on opportunities for play and hanging out



## Y modd mae ymgysylltu â phlant a theuluoedd wedi llywio'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae

Ar y cyfan, dangosodd yr ymateb i'r arolwg fod plant a phobl ifainc yn fodlon ar ansawdd cyffredinol y cyfleoedd a'r cyfleusterau sydd ar gael, gyda mwy na 90% yn dewis eu bod yn 'wych' neu'n 'iawn'. Wrth ofyn iddyn nhw nodi beth oedd yn dda o ran cyfleoedd chwarae, yr ymatebion mwyaf cyffredin oedd:

- Parciau ac offer mewn mannau chwarae ac mewn rhai ardaloedd, niferoedd o ran y rhain
- Caeau pêl-droed (gan gynnwys caeau 3G)
- Teimlo'n ddiogel yn y mannau yma
- Darpariaeth ar ôl yr ysgol
- Mannau gwyrdd – caeau a mannau glaswelltog
- Parciau Sglefrio
- Traciau sgwter
- Mannau ar gyfer reidio beiciau

Rhoddodd plant a phobl ifainc wybod am lawer o brofiadau cadarnhaol o ran cyfleoedd i chwarae a hamddena yn RhCT:

"Dw i'n hoffi'r profiadau mae GYChI yn eu cynnig; dw i wedi bod i lawer o wahanol leoedd na fyddwn i fyth wedi mynd iddyn nhw fel arall"
**Cyfranogwr Grŵp Ffocws Ieuenctid**

"Mae GYChI yn gwneud prosiectau gyda phobl hŷn, rydw i wedi dysgu llawer o bethau newydd"
**Cyfranogwr Grŵp Ffocws Ieuenctid**

"Mae cymdeithasu a chadw'n heini drwy fynd i'r Cadetiaid yn meithrin fy hyder"
**Cyfranogwr Grŵp Ffocws Cynhalwyr Ifainc**


## Sut mae ymgysylltu â phlant a theuluoedd wedi llywio'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae

Daeth yn amlwg o'r arolwg hefyd bod bron i 60% o'r ymatebwyr yn teimlo bod lle i wella o hyd o ran cyfleoedd chwarae yn RhCT. Nododd plant a phobl ifainc y canlynol yn feysydd sydd heb fod yn dda ar hyn o bryd:

- Pobl ifainc hŷn yn bwlio mewn rhai mannau chwarae
- Ffyrdd, gyda nifer o gyfranogwyr yn cyfeirio at y canlynol:
  - Traffig
  - Diogelwch y Ffyrdd
  - Cyflymder ceir
- Sbwriel a gwastraff anifeiliaid anwes
- Diffyg darpariaeth ar gyfer y sawl sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)
  - Yn gysylltiedig â hyn yn un o'r ymatebion:
    - Cyfleusterau ar gyfer y sawl sy'n defnyddio cadair olwyn, megis ystafelloedd ymolchi ac ystafelloedd newid
    - Addasrwydd y ddarpariaeth i'r rhai sy'n defnyddio cadair olwyn
- Perthnasoedd rhwng pobl ifainc ac oedolion

Cafodd y canlynol eu hawgrymu yn awgrymiadau ar gyfer gwelliannau:

- Rhagor o draciau BMX a/neu feiciau, yn benodol yn ardal Cwm Cynon
- Rhagor o offer mewn mannau chwarae
- Rhagor o ardaloedd addas ar gyfer plant hŷn
- Opsiynau mwy diogel ar gyfer reidio beiciau
- Atgyweirio offer presennol mewn mannau chwarae
- Rhagor o ddarpariaeth ADY
- Rhagor o ardaloedd chwarae neu leoedd i fynd iddyn nhw
- Rhagor o weithgareddau / darpariaeth ar ôl ysgol
- “Rhagor o hysbysebu ar y cyfryngau cymdeithasol” Cyfranogwr Grŵp Ffocws Ieuenctid




## Teithio i Leoedd Chwarae

Nododd fwy na 2/3 o’r ymatebwyr eu bod nhw'n cerdded neu’n beicio i leoedd chwarae, er bod dros 50% yn defnyddio trafnidiaeth i deithio i’r ysgol. Mae'r Cyngor wedi cyhoeddi rhwydwaith o gynlluniau i ddatblygu llwybrau Teithio Llesol ledled RhCT gyda'r nod o annog trigolion i ddefnyddio llwybrau diogel i gerdded, olwynio neu feicio i gyrchfannau. Er mwyn cyfrannu at yr agenda Teithio Llesol, mae trin a thrafod cyfleoedd i ychwanegu chwarae ystyrlon ar hyd llwybrau cerddwyr, megis llwybrau i ysgolion a mannau chwarae, wedi'i nodi'n gyfle yn yr asesiad; mae hyn yn ei dro wedi ffurfio cam gweithredu ar gyfer cynllun gweithredu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae 2025-26.


## Sut wyt ti, fel arfer, yn teithio i'r llefydd ble rwyt ti'n chwarae?

Caniatâd





## Sut wyt ti fel arfer yn cyrraedd yr ysgol?

Caniatâd




## Wyt ti'n gallu chwarae ym mhob lle yr hoffet ti chwarae?


Caniatâd





Dim Ymateb





Dydw i ddim yn cael chwarae mewn llawer o lefydd rwyf eisiau




Rwyf ond yn cael chwarae yn ychydig o'r llefydd rwyf eisiau





Rwy'n gallu chwarae yn rhai o'r llefydd rwyf eisiau





Rwy'n gallu chwarae ym mhob lle rydw i eisiau

## Pa mor ddiogel wyt ti'n teimlo pan wyt ti'n chwarae neu'n cymdeithasu?


Caniatâd





Dim Ymateb





Rwy'n teimlo'n ddiogel bob amser




Dydw i ddim yn chwarae'r tu allan




Dw i byth yn teimlo'n ddiogel




Rwy'n teimlo'n ddiogel fel arfer


Daeth ymatebion cymysg i'r amlwg yn yr arolwg yn ymwneud â chaniatâd i chwarae, er y dylai oedran cyfartalog yr ymatebwyr (8 oed) gael ei gadw mewn cof wrth ddadansoddi ymatebion. Nododd bron i 2/3 o blant eu bod nhw'n cael chwarae y tu allan heb oruchwyliaeth oedolion a mynegodd bron i 30% na allan nhw chwarae, bob amser, yn y lleoedd yr hoffen nhw fod ynddyn nhw. Er bod rhai sylwadau'n dangos bod plant wedi wynebu bwlio mewn mannau chwarae, nododd bron i 90% o'r ymatebwyr eu bod nhw'n teimlo'n ddiogel wrth chwarae, yn gyffredinol felly.

> "Dw i'n teimlo'n ddiogel yn cymdeithasu yn fy nghymuned oherwydd fy mod i'n adnabod y rhan fwyaf o bobl. Dw i bob amser gyda fy ffrindiau"
>
> **Cyfranogwr Grŵp Ffocws Ieuenctid**

# Sut beth yw oedolion pan fyddwch chi'n chwarae neu'n treulio amser gyda'ch gilydd?

**Safbwynt Oedolion Ar Chwarae**

Dywedodd mwy na 80% o blant a phobl ifainc bod oedolion yn gyffredinol yn fodlon eu bod nhw'n treulio amser gyda'u ffrindiau. Fodd bynnag, mewn grwpiau ffocws gyda phlant hŷn (11+), roedd safbwynt oedolion ynghylch pobl ifainc yn bwnc trafod cyffredin; gan ddangos bod hwn yn faes i feddwl amdano o hyd.




- **1.03%** – Dim Ymateb
- **50.81%** – Mae'r rhan fwyaf o oedolion yn wych ac yn hapus gyda phlant yn chwarae tu allan
- **3.52%** – Mae'r rhan fwyaf o oedolion yn flin ac yn casáu plant yn chwarae tu allan
- **36.42%** – Mae'r rhan fwyaf o oedolion yn iawn ac yn fodlon bod plant yn chwarae tu allan
- **8.22%** – Mae rhai oedolion yn flin a ddim yn hoffi bod plant yn chwarae tu allan

> "Mae pobl hŷn bob amser yn meddwl bod pobl ifainc yn achosi problemau"
>
> **Cyfranogwr Grŵp Ffocws Ieuenctid**

## Sut mae ymgysylltu â phlant a theuluoedd wedi llywio'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae

Tynnodd y Grwpiau Ffocws gyda Chynghorau Ysgol sylw at y ffaith bod chwarae'n hynod bwysig i blant yn y diwrnod ysgol ac nid wedi'r diwrnod ysgol yn unig, gyda 88% o'r cyfranogwyr yn nodi eu bod yn 'hoffi' neu'n 'caru' amser chwarae. Disgrifiodd y cyfranogwyr sut mae chwarae'n effeithio arnyn nhw, gan dynnu sylw at y llu o fanteision ar lefel unigol ac ysgol:

**"Dw i'n hoffi amser chwarae oherwydd dw i'n hoffi rhedeg o gwmpas a chael hwyl"**

**"Mae'n gwneud i mi deimlo'n frwdfrydig i wneud mathemateg"**

**"Dw i'n mwynhau'r filltir ddyddiol, mae fel seibiant ymennydd"**

**"Dw i'n teimlo rhyddhad amser chwarae oherwydd dw i'n cael seibiant o ysgrifennu yn ein llyfrau"**

## Sut mae ymgysylltu â phlant a theuluoedd wedi llywio'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae

Er bod y rhan fwyaf o'r plant a gymerodd ran wedi mynegi barn gadarnhaol ynghylch chwarae yn yr ysgol, y pryder oedd bod plant yn dymuno cael rhagor o gyfleoedd chwarae, yn enwedig y plant hŷn a nododd eu bod yn cael llai o egwyliau na'r rhai yn y Cyfnod Sylfaen. Mae'n amlwg o arolwg y Penaethiaid bod nifer yr egwyliau, eu hamlder a'u hyd yn amrywio'n sylweddol o ysgol i ysgol ac o fewn ysgolion yn dibynnu ar oedran y plant. Ar ben hynny, dewisodd 48% o'r ymatebwyr yr opsiwn fod amseroedd egwyl yn cael eu tynnu'n ôl oddi wrth ddisgyblion gyda'r mwyafrif yn datgan mai'r rheswm dros hyn oedd ei fod yn sancsiwn am ymddygiad gwael. Mae'n amlwg bod y ffordd y mae disgyblion yn treulio eu hamser egwyl hefyd yn amrywio'n sylweddol.  Er hyn, cafodd nifer o gyfleoedd chwarae cyfoethog eu nodi, gan gynnwys ystod o weithgareddau chwaraeon, beiciau cydbwysedd, llochesi dychymyg, defnyddio offer a mannau tawel. Mae'n amlwg yn nifer o'r ymatebion hefyd bod Arweinwyr Llysgenhadon Chwaraeon, Arweinwyr Chwarae hyfforddedig a chyfryngwyr cyfoedion yn cael eu defnyddio i hyrwyddo chwarae yn ystod amseroedd egwyl.

Ymhlith y materion cyffredin o natur negyddol o du'r Cynghorau Ysgol roedd offer chwarae cyfyngedig; roedd dyhead i gael rhagor o adnoddau ac amrywiaeth o ran hyn, yn ogystal â storfa ar gyfer y rhain. Roedd hyn yn ymateb cyffredin yn arolwg y Penaethiaid hefyd. Yn ogystal, pwysleisiodd y Penaethiaid y byddai plant yn elwa o fuddsoddiad mewn offer chwarae ar dir yr ysgol, gyda llwybrau cadw'n heini wedi'u nodi yn adnoddau chwarae a fyddai'n gwella cyfleoedd chwarae yn yr awyr agored. Mae'r adborth yma wedi gosod y sylfeini ar gyfer camau gweithredu sy'n gysylltiedig â Mater I yn ymwneud â chodi proffil chwarae o fewn y diwrnod ysgol; bydd gwasanaethau'n gweithio mewn partneriaeth i ddatblygu Polisi Chwarae Ysgolion RhCT er mwyn datblygu dull cyson ledled Awdurdod Lleol. Mae canfyddiadau'r ymgynghoriad hefyd wedi arwain at well partneriaethau rhwng y Garfan Datblygu Chwarae ac Ysgolion Bro, gan greu cam gweithredu o ran treialu defnyddio tiroedd ysgol at ddibenion chwarae y tu hwnt i'r diwrnod ysgol.

# Yr hyn y mae Rhieni a Gofalwyr wedi'i ddweud wrthym


Roedd gwrando ar leisiau Rhieni a Gwarcheidwaid yn nodwedd allweddol o'r asesiad digonolrwydd. Defnyddiodd y Cyngor yr arolwg oedd wedi'i ddarparu yn y pecyn cymorth Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, gan ychwanegu cwestiynau penodol yn ymwneud â RhCT. Cafodd cyfanswm o 40 o ymatebion eu cyflwyno. Er mwyn ystyried safbwyntiau Rhieni a Gwarcheidwaid, cynhaliodd y garfan CREW gyfweliadau oedd wedi'u lled-strwythuro gydag oedolion yn ystod ei waith ymyrraeth; ychwanegodd hyn ddimensiwn pellach o brofiad bywyd i'w gyfrannu at yr asesiad digonolrwydd.

## Ble mae hoff le eich plentyn/plant i chwarae?




## Sut mae ymgysylltu â phlant a theuluoedd wedi llywio'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae

Yn dilyn dadansoddiad o ganlyniadau'r arolwg a'r grwpiau ffocws gyda rhieni a gwarcheidwaid, fe ganfuom ni hyn:




Roedd 92% yn cytuno'n gryf ac roedd 8% yn cytuno bod chwarae'n dda i iechyd a hapusrwydd plant

Mae pwysigrwydd chwarae o ran cyfrannu at iechyd a hapusrwydd plant yn cael ei gydnabod a'i werthfawrogi'n eang gan bob Rhiant a Gwarcheidwad.





Y tu allan i'r ysgol, dewisodd bron i hanner yr ymatebwyr fod eu plentyn/plant 'bron byth' neu 'ddim yn chwarae nac yn treulio amser gyda ffrindiau na theulu'.

Cyfleoedd chwarae rhydd/heb strwythur megis parciau, mannau chwarae ac yn y cartref yw'r hoff fannau chwarae



## Sut mae ymgysylltu â phlant a theuluoedd wedi llywio'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae

### Pa mor aml mae eich plentyn/plant yn chwarae neu'n treulio amser gyda ffrindiau neu deulu y tu allan i'r ysgol?

| | |
|---|---|
| Bob dydd | 3% |
| Bron bob dydd | 18% |
| Ychydig ddiwrnodau bob wythnos | 33% |
| Ychydig ddyddiau bob mis/braidd byth | 23% |
| Nid yw fy mhlant yn chwarae neu'n cymdeithasu gyda ffrindiau y tu allan | 23% |

Chwarae yn y stryd neu fannau agored lleol yw'r ardal leiaf poblogaidd ar gyfer chwarae.

Daeth i'r amlwg bod mynediad at fannau chwarae yn rhwystr i blant chwarae y tu allan




Pryderon diogelwch, yn ymwneud yn bennaf â thraffig, yw'r prif rwystrau sy'n atal plant rhag chwarae y tu allan; mae hyn wedi'i ddwyn i ystyriaeth wrth benderfynu ar gamau gweithredu i weithio tuag at ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae (gweler adran 6).

"Mae'r ffyrdd yn brysur iawn, mae ceir yn mynd ar wib"


**Rhiant a ymatebodd i un o drafodaethau'r garfan CREW**

## Y modd mae ymgysylltu â phlant a theuluoedd wedi llywio'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae




Roedd nifer uwch o oedolion yn anghytuno (46%) bod digon o gyfleoedd chwarae wedi'u trefnu, yn yr ardal leol, o'i gymharu â'r rhai a oedd yn cytuno (25%).

Roedd 46% o oedolion yn cytuno bod digon o gyfleoedd chwarae rhydd, er hynny roedd 41% yn anghytuno



## Sut mae ymgysylltu â phlant a theuluoedd wedi llywio'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae

Fe gododd sawl cyfranogwyr fater costau wrth fynychu cyfleoedd chwarae:

> "Rhagor o weithgareddau ar ôl ysgol rhad/am ddim ar gyfer plant ifainc megis garddio, celf a chrefft, meithrin tîm"

Yn ôl yr asesiad, mae nifer fawr o gyfleoedd am ddim i chwarae ledled RhCT. Serch hynny, yr awgrym o'r adborth yw nad yw hyrwyddo gweithgareddau o'r fath yn digwydd mewn modd eang ac effeithiol; yn aml mae teuluoedd yn ei chael hi'n anodd llywio drwy hyn. O ganlyniad, mae cydlynu'r modd mae gweithgareddau yn cael eu hyrwyddo, ac ehangu hyn, yn flaenoriaeth allweddol yng nghynllun gweithredu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae 2025-26.

> "Pethau sy'n rhatach i blant gael mynediad atyn nhw oherwydd dyw pobl sydd â mwy nag 1 plentyn ddim yn gallu fforddio gwneud gweithgareddau"
>
> **Rhiant a ymatebodd i drafodaethau yn y rhaglen CREW**

Mae'n amlwg o'r ymgynghori bod angen clir am gyfleoedd pellach i blant a phobl ifainc sy'n anabl chwarae. Mae gofalu bod pob plentyn yn cael mynediad at ei hawl i chwarae yn flaenoriaeth i'r Cyngor ac felly roeddem o'r farn ei bod yn bwysig bod profiadau bywyd plant anabl a'u teuluoedd yn cael eu clywed. O ganlyniad, cafodd ymgynghoriad pellach ei gynnal â phlant yn ystod sesiynau prosiect Chwarae Addasu a sesiynau Chwarae Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY) dan arweiniad Fuze, Sefydliad Gwirfoddol; rhoddodd hyn gyfle hefyd o ran creu grwpiau ffocws pellach gyda rhieni a gwarcheidwaid y plant yma, a oedd unwaith eto wedi'u lled-strwythuro ac fe gawsom ni dealltwriaeth werthfawr yn sgil hyn. O hyn, fe welom ni fod teuluoedd yn gwerthfawrogi'r sesiynau prosiect Chwarae Addasu sydd ar gael yn fawr.

> Yn Erthygl 23 o Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn mae hyn yn cael ei nodi: Dylai plant anabl gael eu cefnogi i gyrraedd eu potensial llawn. Dylai gweithgareddau gydag eraill gael eu darparu iddyn nhw fel bod modd iddyn nhw fod yn gyfranogwyr gweithredol yn eu cymuned eu hunain. Dylai llywodraethau sicrhau bod plant anabl yn cael addysg, gofal iechyd a chyfleoedd i ymlacio, chwarae a gwneud gweithgareddau eraill.

> "Mae Chwarae Addasu wedi bod yn gefn gwirioneddol i mi gan nad awtistiaeth sydd gyda fy mab, mae gydag e gyflwr genetig prin, ac mae pob grŵp ADY arall ar gyfer plant sydd ag awtistiaeth. Mae'r staff yma wir yn gefnogol, ac rydyn ni'n teimlo'n gartrefol yma."

Yn ôl teuluoedd mae cyfleoedd i blant anabl chwarae yn gyfyngedig ac yn aml yn gostus os ydyn nhw'n cael eu cynnal gan sefydliadau preifat ac felly'r consensws yw nad yw cyfleoedd chwarae yn gyfartal i bawb yn RhCT. Mae teuluoedd wedi mynegi eu bod yn wynebu nifer o rwystrau, gan gynnwys mynediad at gyfleusterau:

> "Dydw i ddim yn gallu defnyddio pont gyhoeddus y ganolfan chwaraeon gan fod grisiau yno a does dim modd i mi gael y gadair olwyn drosti."
>
> **Cyfranogwr Grŵp Ffocws Rhieni**

> "Braf iawn cael rhywfaint o ddarpariaeth ym Mrynna, mae'n ymddangos bod popeth ar gyfer ADY i fyny'r cymoedd a dydw i ddim yn gyrru felly alla i ddim eu cyrraedd nhw"
>
> **Cyfranogwr Grŵp Ffocws Rhieni**

> "Mae sesiynau ADY yn dda ond maen nhw'n anodd eu cyrraedd heb gar"
>
> **Rhiant a Ymatebodd i'r Arolwg**

Ar ben hynny, fe nododd y teuluoedd, er bod sesiynau prosiect Chwarae Addasu yn fuddiol, nad oes digon ohonyn nhw o ran nifer, gyda phawb yn mynegi bod galw am ragor o sesiynau yn ystod y tymor a chyfnodau gwyliau mewn rhagor o leoliadau; yn sgil hyn, mae hyn wedi'i flaenoriaethu yn gam gweithredu i weithio tuag ato drwy gydol 2025-26.

> "Angen rhagor gan nad oes gyda ni hanner gymaint o leoedd a chyfleoedd ag sydd gyda phlant niwro-nodweddiadol"
> **Rhiant a Ymatebodd i'r Arolwg**

Mae dadansoddiad o'r 50 ymateb gan blant anabl o'r Arolwg Chwarae Mawr yn adleisio'r themâu ddaeth i'r amlwg ymhlith Rhieni a Gwarcheidwaid. O blith y plant a phobl ifainc a nododd eu bod nhw'n anabl, fe ddywedodd 34% eu bod 'bron byth' neu 'ddim yn chwarae nac yn treulio gyda fy ffrindiau'r tu allan'; mae hyn yn gynnydd o 14% o ran yr ymatebion ar gyfer yr opsiynau yma o'i gymharu â'r rhai ymhlith y sawl nad ydyn nhw'n nodi eu bod nhw'n anabl. Yn yr un modd, dewisodd 18% o'r ymatebwyr 'prin y mae modd i mi chwarae yn unrhyw un o'r lleoedd yr hoffwn i chwarae ynddyn nhw', cynnydd o 10% o'i gymharu â'r holl ymatebion eraill, sy'n cael ei atgyfnerthu ymhellach yn y gymhariaeth 24% / 38% o ran dewis yr opsiwn 'Mae modd i mi chwarae ym mhob lle yr hoffwn i chwarae ynddyn nhw'. Serch hynny, o ran y math o leoedd y mae Plant Anabl yn hoffi chwarae neu dreulio amser ynddyn nhw, roedd yr ymatebion yn debyg iawn i'w gilydd gyda'r dewis mwyaf cyffredin yn ymwneud â chwarae neu dreulio amser mewn mannau preifat, gyda chanrannau tebyg yn dewis math o ardal chwarae neu glwb chwarae ar ôl ysgol neu glwb ieuenctid.

## Pa mor aml wyt ti'n mynd allan i chwarae neu dreulio amser gyda ffrindiau?

- 18% — Dydw i ddim yn chwarae nac yn treulio amser gyda fy ffrindiau'r tu allan
- 16% — Bron byth
- 28% — Ychydig ddiwrnodau'r wythnos
- 38% — Bron bob dydd

## Wyt ti'n gallu chwarae ym mhob lle yr hoffet ti chwarae?

- 4% — Dim Ymateb
- 18% — Prin y mae modd i mi chwarae yn unrhyw un o'r lleoedd yr hoffwn i chwarae ynddyn nhw
- 26% — Mae modd i mi chwarae mewn rhai o'r lleoedd yr hoffwn i chwarae ynddyn nhw
- 28% — Dim ond mewn ychydig o'r lleoedd yr hoffwn i chwarae ynddyn nhw y mae modd i mi wneud hynny
- 24% — Mae modd i mi chwarae ym mhob lle yr hoffwn i chwarae ynddyn nhw

# Pan nad wyt ti yn yr ysgol, pa fath o leoedd hoffet ti fod yn chwarae neu dreulio amser ynddyn nhw?

O ran y sawl a nododd fod gyda nhw anabledd

| Lle | Nifer |
|---|---|
| Yn fy nhŷ neu yn nhŷ ffrind | 40 |
| Mewn parc chwarae gyda siglenni, llithren ac offer chwarae eraill | 30 |
| Yn y strydoedd ger fy nhŷ | 25 |
| Mewn parc chwarae antur neu gynllun chwarae | 20 |
| Mewn canolfan chwarae dan do | 19 |
| Yn fy ngardd neu yng ngardd ffrind | 18 |
| Ar faes chwarae fy ysgol | 18 |
| Mewn clwb ar ôl ysgol | 17 |
| Mewn parc beicio neu barc sglefrio | 16 |
| Mewn canolfan y gymuned neu ganolfan hamdden | 14 |
| Ar gae pêl-droed ger fy nhŷ | 14 |
| Yn y goedwig ger fy nhŷ | 12 |
| Mewn ardal lle mae llwyni, coed a blodau | 11 |
| Mewn ardal laswelltog leol | 11 |
| Rhywle gyda dwr neu dywod ynddo | 10 |
| Mewn clwb ieuenctid | 8 |
| Rhywle arall (dyweda wrthyn ni ble) | 10 |
| Llithrennau ac offer eraill i chwarae arnyn nhw | 1 |
| Mewn parc chwarae gyda siglenni | 1 |
| Dim Ymateb | 1 |

**Cyfanswm yr Ymatebwyr 50**

*Roedd modd i'r ymatebwyr ddewis sawl opsiwn

## Sut mae'r safbwyntiau yma wedi llywio'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae?

Cafodd yr ymatebion i'r ymgynghoriad eu dadansoddi a'u cysylltu â phob un o'r pedair thema a Materion oedd ynghlwm â'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae; cafodd yr wybodaeth yma ei thrin a'i thrafod wedi hynny pan gynhaliodd cynrychiolwyr yn y gweithdy Gweithredu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae ddadansoddiad CGCB o bob un o'r meysydd thematig (atodiad 1). Profodd y safbwyntiau hyn yn amhrisiadwy wrth werthuso cryfderau, gwendidau, cyfleoedd a bygythiadau cyfredol. Ochr yn ochr ag asesiadau o wasanaethau, cyfrannodd y safbwyntiau yma at nodi camau gweithredu i fynd i'r afael â bylchau o ran digonolrwydd cyfleodd chwarae yn unol â'r hyn sydd wedi'u nodi yn adran 6.


# 4. Gwneud y Gorau o Adnoddau

RHONDDA CYNON TAF


# Gwneud y Gorau o Adnoddau

Yn ystod 2022-23, elwodd RhCT yn sylweddol o gynnydd yng nghyllid Llywodraeth Cymru ar gyfer cyfleoedd chwarae drwy grant Haf o Hwyl oedd yn swm o £457,796.00; cafodd ei ddefnyddio i ddarparu cyllid i sawl un o wasanaethau'r Cyngor ac i gomisiynu'r Trydydd Sector i ddarparu nifer o weithgareddau lles teuluol, o ystod eang, drwy gydol y gwyliau. Yn anffodus, ni chafodd y cyllid yma ei ymestyn y tu hwnt i 2022, felly mae'r Awdurdod Lleol wedi gweld gostyngiad yn nifer y gweithgareddau gwyliau sydd ar gael gan nad oedd modd i ffrydiau ariannu eraill gynnal y ddarpariaeth. Fodd bynnag, mae pwysigrwydd chwarae ledled yr Awdurdod Lleol yn cael ei gydnabod drwy gyfrwng cyllideb graidd sydd wedi'i chlustnodi ar gyfer costau staffio o ran arwain yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae yn strategol felly, a blaenoriaethu datblygiad chwarae.

Ar ben hynny, defnyddir cyllidebau craidd i gefnogi costau staffio meysydd gwasanaeth eraill sy'n hanfodol i ddarparu cyfleoedd chwarae ar draws RhCT, gan gynnwys Chwaraeon, Hamdden, Celfyddydau a Diwylliant a'r Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid.



# Gwneud y Gorau o Adnoddau



Fodd bynnag, mae rhoi camau gweithredu ar waith ar gyfer datblygu chwarae a chomisiynu gweithgareddau yn dibynnu'n fawr ar gyllid grant allanol; ers 2022 mae'r Cyngor wedi elwa'n fawr o ystod o grantiau gwella cyfleoedd chwarae, mae RhCT wedi croesawu'r rhain. Mae'r cyllid sydd wedi'i restru isod wedi cael ei defnyddio gan amrywiaeth o Wasanaethau'r Cyngor, sef Chwarae, Ieuenctid, Chwaraeon a Hamdden, Celfyddydau a Diwylliannau, Parciau a Mannau Chwarae.

# Gwneud y Gorau o Adnoddau

## Grant Cyfleoedd Chwarae Cymru Gyfan (GCChCG):

### Prosiect Gwyliau Playworks (blynyddol)

- Cyllid ar gyfer comisiynu sesiynau chwarae mynediad agored Trydydd Sector yn ystod y gwyliau, sesiynau Chwarae Addasu ac achlysuron Diwrnod Chwarae Cenedlaethol

### Refeniw GCChCG

- Cyllid ychwanegol wedi'i ddyrannu yn 2024 a 2025 yn gymorth i gynnal yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae. Drwy gydol 2024-25 mae'r cyllid ychwanegol yma wedi caniatáu i'r Cyngor ymrwymo adnoddau ychwanegol i ymgymryd â gwaith ymgynghori a chydweithio helaeth. Wrth symud ymlaen, bydd y Cyngor yn defnyddio'r grant i gyfrannu at ariannu camau gweithredu perthnasol Cynllun Gweithredu Cyfleoedd Chwarae 2025-26 sy'n deillio o'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae.

### Cyfalaf CGCChG

- Mae RhCT wedi elwa o gyllid cyfalaf ychwanegol ar gyfer 2025-26 yn gyfraniad tuag at gyflawni'r camau gweithredu gafodd eu nodi ar y Cynllun Gweithredu Cyfleoedd Chwarae; bydd yn cael ei ddefnyddio'n bennaf i wella cynhwysiant a hygyrchedd mannau chwarae presennol ledled RhCT mewn ymateb i safbwyntiau sy'n cael eu rhannu ymhlith Rhieni a Gwarcheidwaid yn dilyn ymgynghoriadau Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae.

# Gwneud y Gorau o Adnoddau

**Grant Hyfforddiant a Chymorth Gofal Plant a Chwarae (blynyddol)**

- Cyllid ar gyfer cyflwyno amrywiaeth o sesiynau hyfforddi gofynnol ac nad ydyn nhw'n ofynnol ar gyfer uwchsgilio Darparwyr Cyfleoedd Chwarae a gwella ansawdd y ddarpariaeth. Mae'r canlynol wedi bod yn rhan o'r hyfforddiant: Diogelu, Hylendid Bwyd, Cymorth Cyntaf Pediatrig, hyfforddiant Makaton a Halycon

**Cyfalaf Mannau chwarae (blynyddol)**

- Mae buddsoddiad cyfalaf blynyddol wedi caniatáu i'r Cyngor atgyweirio, cynnal a chadw ac adnewyddu 41 o feysydd chwarae ledled RhCT ers 2022 yn unol â'r adolygiad CMG

**Grant Cefnogi Ieuenctid**

- Dyraniad wedi'i glustnodi ar gyfer comisiynu sesiynau ieuenctid mynediad agored Trydydd Sector
- Dyraniad wedi'i glustnodi ar gyfer darparu gweithgareddau cyfoethogi yn y Gymraeg a gwaith fforwm gyda phobl ifainc

**Grant Cyngor Celfyddydau Cymru**

- Dyraniad wedi'i glustnodi ar gyfer darparu gweithgareddau celfyddydau hamdden

## Gwneud y Gorau o Adnoddau

**Chwaraeon RhCT** – Cyllid Partneriaeth Actif Canolbarth y De (CPAC) / Chwaraeon Cymru – Crowdfudner / Grantiau Cymru Actif / Chwaraeon Anabledd Cymru

- Wedi'i ddefnyddio i ddarparu amrywiaeth o weithgareddau hamdden am ddim neu â chymhorthdal; mae dyraniad o'r rhain wedi'i glustnodi i dargedu darpariaeth ar gyfer plant a phobl ifainc
- Rhoi cymorth i'r sector gwirfoddol i wneud cais am gyllid ychwanegol, mae hyn yn dod yn bennaf eto o Grantiau Crowdfunder a Cymru Actif, Chwaraeon Cymru.
- Mae sesiynau wedi'u targedu wedi cael eu cyflwyno ar gyfer Plant a Phobl Ifainc Anabl, er nad yw cyllid gan Chwaraeon Anabledd Cymru wedi bod ar gael mwyach yn ystod y 12 mis diwethaf.

**Teuluoedd yn Gyntaf**

- Dyraniad wedi'i glustnodi ar gyfer darparu gweithgareddau celfyddydau cyfranogol

**Dechrau'n Deg**

- Cyllid i fod yn gymorth o ran sesiynau Siarad a Chwarae a Rhianta

# Gwneud y Gorau o Adnoddau

**Cyllid O'r Gronfa Integreiddio Rhanbarthol (GIRh) ers 2023 ac mae hyn wedi'i ymestyn tan 2027**

- Er nad yw'n cael ei ddefnyddio ar gyfer cyflwyno gweithgareddau chwarae neu hamdden yn uniongyrchol felly, mae cyllid y Gronfa Integreiddio Rhanbarthol wedi caniatáu i RhCT sefydlu carfan newydd: Creu Cydnerthedd ar gyfer Lles Emosiynol (CREW) yn deillio o fwlch a gafodd ei nodi, sef plant 8-11 oed sy'n cael mynediad at gymorth 1-1. Mae'r cymorth 1-1 sy'n cael ei gynnig yn rhan o ddull amlddisgyblaethol ymyrraeth gynnar sy'n defnyddio therapi chwarae i feithrin gwydnwch a gwella lles emosiynol; mae wedi dod i'r amlwg drwy'r asesiad digonolrwydd bod y galw wedi bod yn uchel a bod y canlyniadau wedi bod yn gadarnhaol iawn, gan arwain at ehangu'r garfan CREW yn 2024 gyda chyllid wedi'i sicrhau tan 2027. Y nod pennaf o ran y strategaeth ymadael yw cyfeirio plant at ddarpariaeth gyffredinol, yn fwyaf nodedig chwarae mynediad agored a chlybiau ieuenctid, gan sicrhau felly bod pwysigrwydd chwarae yn parhau i fod yn flaenllaw yn yr ymyrraeth.

**Cyllid Llwybrau Diogel mewn Cymunedau / Diogelwch ar y Ffyrdd**

- Wedi'i ddefnyddio gan Garfan Diogelwch Ffyrdd sy'n rhan o'r Adran Drafnidiaeth er mwyn rhoi mentrau gwella diogelwch y ffyrdd ar waith, gan arwain, yn ei dro, at fynd i'r afael ag un o'r prif rwystrau o ran cyfleoedd chwarae yn ein cymunedau.

# Gwneud y Gorau o Adnoddau

O ystyried yr hinsawdd economaidd sydd ohoni, mae'n cael ei gydnabod bod adnoddau ariannol sydd wedi'u neilltuo ar gyfer chwarae yn gyfyngedig, felly mae ffocws ar rannu adnoddau a gwneud y mwyaf o gyllidebau a grantiau trwy weithio mewn partneriaeth. Mae rhannu costau hyfforddi yn un maes lle mae gweithio mewn partneriaeth yn effeithiol a hyn trwy gydlynu costau a'u rhannu ar hyd ystod meysydd y gwasanaeth, yn bennaf ar hyd ystod Gofal Plant, Chwarae, Ieuenctid a'i bartneriaid yn y Trydydd Sector. Nid yn unig o ran cyllid mae adnoddau'n cael eu rhannu, mae rhannu adnoddau ar gyfer achlysuron megis Picnic y Tedis a Diwrnodau Hwyl i'r Teulu yn rhan o hyn hefyd; mae hyn yn fodd o ofalu nad oes unrhyw gostau'n cael eu trosglwyddo i ddefnyddwyr y gwasanaeth.


Mae'r Grŵp Monitro Digonolrwydd Chwarae hefyd yn hwyluso rhannu gwybodaeth allweddol, megis ymarferion mapio sy'n cael eu cynnal gan y Swyddog Mapio Gwasanaethau, gan arwain at wneud y mwyaf o adnoddau o ran amser staff. Yn dilyn yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, mae wedi'i gydnabod bod gwneud y mwyaf o adnoddau heb fod yn digwydd mewn modd mor effeithiol â'r hyn sy'n cael ei ddymuno, ar hyn o bryd; mae hyn yn flaenoriaeth felly wrth symud ymlaen. Mae gwell partneriaethau trawswasanaeth yn rhan o nifer o'r camau gweithredu a gafodd eu nodi yn y Cynllun Gweithredu Chwarae, yn benodol felly o ran Teithio Llesol a'r Rhaglen Gwella Gwyliau'r Ysgol. Yr hyn sy'n cael ei ragweld yw y bydd hyn yn arwain yn naturiol at rannu adnoddau ac felly gwell canlyniadau.

Ymhellach, mae nifer o gamau gweithredu cost isel neu gost niwtral yn rhan o Gynllun Gweithredu Chwarae 2025-26 a fydd yn cael effaith gadarnhaol ar gyfleoedd chwarae, megis cyfathrebu gwell â defnyddwyr gwasanaeth.

# 5. Monitro

RHONDDA CYNON TAF

# Monitro



Mae'r cyfrifoldeb strategol dros chwarae yn parhau gyda Rheolwr y Gwasanaeth ar gyfer Plant a Phobl Ifainc. Ers 2023 mae'r gwasanaeth yma wedi bod yn rhan o gyfarwyddiaeth Iechyd y Cyhoedd a Diogelu'r Gymuned. Roedd symud o Wasanaethau Plant yn rhan o newid ehangach ond roedd yn cyd-fynd yn dda â blaenoriaeth y gwasanaeth Chwarae o ran eiriol dros bwysigrwydd chwarae ledled cymunedau a'r tu mewn iddyn nhw.  Mae'r gwasanaeth yma'n rhan o'r Gwasanaeth Llesiant a Chydnerthedd y Gymuned; mae carfan Datblygu Cyfleoedd Chwarae yn rhan o'r gwasanaeth yma. Maen nhw'n arwain ar gomisiynu cyfleoedd chwarae trydydd sector, monitro sicrhau ansawdd darpariaeth chwarae a gweithredu camau gweithredu digonolrwydd cyfleoedd chwarae perthnasol.

Ers 2022 mae'r Rheolwr Datblygu Chwarae wedi cadeirio'r Grŵp Monitro Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, ond i bwysleisio'r cydweithio strategol trawswasanaeth sy'n ofynnol ar gyfer yr asesiad, mae Rheolwr Gwasanaethau Plant a Phobl Ifainc bellach yn cadeirio'r gweithgor, ac mae cynrychiolaeth o adrannau allweddol yr Awdurdod Lleol yn rhan o'r gweithgor yma, fel sydd wedi'i nodi yn nhabl 5.1. Mae'r gweithgor yn cyfarfod bob chwarter i werthuso cynnydd camau gweithredu'r ADCCh ac i nodi camau gweithredu pellach sydd eu hangen, sydd wedyn yn cael sgôr CMG ar ddogfen sy'n cael ei rhannu. Mae wedi dod i'r amlwg o'r asesiad digonolrwydd bod rhannu data allweddol, sef data poblogaeth a thueddiadau demograffig, yn ogystal â mapio gwasanaethau o gyfleoedd chwarae sydd ar gael yn gryfder amlwg o ran y gweithgor ADCCh.

Fodd bynnag, mae presenoldeb yng nghyfarfodydd gweithgor y ADCCh wedi bod yn ysbeidiol ar brydiau ac wrth adlewyrchu ar hyn dyw'r aelodaeth ddim wedi bod yn gynrychioliadol o nifer ddigonol o wasanaethau'r Cyngor sy'n ymwneud â chwarae. Felly, un cam a gafodd ei nodi oedd ehangu aelodaeth a rhoi egni newydd i bwysigrwydd yr ADCCh trwy ddosbarthu Cylch Gorchwyl newydd a cheisio cefnogaeth o ran Uwch Arweinyddiaeth er mwyn gofalu bod y ddyletswydd statudol yn cael ei deall a'i gwerthfawrogi'n eang. Yn rhan o gylch 2025 yr Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae, mae aelodaeth y grŵp Monitro Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae nawr wedi'i ehangu i gynnwys rhagor o gynrychiolaeth o nifer cynyddol o wasanaethau'r Cyngor. Mae presenoldeb mewn cyfarfodydd a gweithdai wedi gwella ers hynny; mae'r ymgysylltu cynyddol yma yn cyd-fynd yn effeithiol â blaenoriaeth a gafodd ei nodi sef sicrhau bod Chwarae yn treiddio i bob polisi a dogfennaeth berthnasol ledled y Cyngor.

Oherwydd llwyddiant a chynhyrchiant y gweithdy gweithredu wyneb yn wyneb, mae aelodau'r grŵp wedi nodi ei fod yn well gyda nhw gynnal cyfarfodydd wyneb yn wyneb yn flynyddol yn fodd o ailosod ac adolygu camau gweithredu sydd wedi'u cytuno arnyn nhw, gan barhau i gynnal cyfarfodydd ar-lein chwarterol i drafod cynnydd camau gweithredu a sicrhau bod momentwm, gweithio mewn partneriaeth, a'r ffocws ar ddigonolrwydd cyfleoedd chwarae yn cael eu cynnal.

**Tabl 5.1**

| Maes Gwasanaeth | |
|---|---|
| Carfan Datblygu Chwarae | Dechrau'n Deg |
| Gwasanaethau Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid | Gofal Plant |
| Carfan Plant Anabl | Teuluoedd Cydnerthedd – Y Garfan Rhianta |
| Creu Cydnerthedd ar gyfer Lles Emosiynol (CREW) ar gyfer Plant a Phobl Ifainc 8-11 oed | Teuluoedd Cydnerthedd – Y Garfan Siarad a Chwarae |
| Cynllunio a Thrawsnewid Gwasanaethau | Polisi Cynllunio |
| Swyddog Hyfforddi Llesiant a Chydnerthedd y Gymuned | Traffig |
| Rhaglenni Strategol a Phartneriaethau yn y Gymuned | Carfan Diogelwch y Ffyrdd |
| Ysgolion Bro | Cludiant |
| Chwaraeon RhCT | Y Celfyddydau a Diwylliant |
| Chwaraeon yn y Gymuned | Gwasanaeth y Llyfrgelloedd |
| Parciau a Chwarae | Datblygu'r Gymuned |
| Eiddo'r Cyngor | Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd |
| Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cwm Taf | Tai |
| Cymunedau Diogel | Iechyd a Diogelwch |

Bydd crynodeb, gwerthusiad a chynllun gweithredu dilynol Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae hefyd yn cael eu cyflwyno i Bwyllgor Craffu – Plant a Phobl Ifainc a Chabinet y Cyngor i'w trafod a'u cymeradwyo.

# 6. Casgliad

RHONDDA CYNON TAF

# Casgliad

I grynhoi, mae'r Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae wedi amlygu'r cynnydd mewn sawl maes ers 2022; mae'n amlwg bod chwarae'n cael blaenoriaeth ar hyd ystod nifer o feysydd gwasanaeth, er bod cysondeb o ran hyn yn amrywio. Dyw aelodaeth y grŵp Monitro Digonolrwydd Chwarae ddim wedi bod yn ddigon cynrychioliadol o'r holl wasanaethau perthnasol, er bod gwelliant amlwg wedi bod yn y maes yma, ac o ganlyniad mae'n cael ei ragweld y bydd hyn yn effeithio ar roi sylw cynyddol i bwysigrwydd chwarae ac yna ar gynnydd y camau gweithredu sydd wedi'u nodi yn y Cynllun Gweithredu Chwarae i fynd i'r afael â'r bylchau sydd wedi'u nodi.

Mae ymgynghori â rhanddeiliaid allweddol wedi taflu llawer o oleuni ar bethau ac yn hanfodol o ran nodi'r camau gweithredu gofynnol i sicrhau bod yr Awdurdod Lleol yn diwallu'r anghenion sydd wedi'u nodi. Mae'r buddsoddiad ychwanegol sy'n cysylltu'n benodol â chamau gweithredu Digonolrwydd Cyfleoedd Chwarae o ran refeniw a chyfalaf wedi'i groesawu a bydd yn helpu'r Cyngor i ariannu'r adnoddau angenrheidiol i weithio tuag at y cerrig milltir sydd wedi'u nodi yn y Cynllun Gweithredu Chwarae. At hynny, yn yr hinsawdd economaidd bresennol, bydd gweithio mewn partneriaeth, gwneud y mwyaf o adnoddau a rhannu adnoddau yn ffactor sy'n ysgogi llwyddiant.

Mae sylw'n cael ei roi yn y cynllun gweithredu i nifer o gamau gweithredu sydd wedi'u seilio ar hyn.

Yn unol â'r blaenoriaethau allweddol sydd wedi'u nodi yn adran 1, mae yn y Cynllun Gweithredu Chwarae fanylion penodol am gamau gweithredu allweddol sydd wedi'u nodi sy'n grymuso o ran y cyfleoedd a gafodd eu codi yng ngweithdy gweithredu'r Grŵp Monitro Chwarae. Gweledigaeth y Cyngor yw y bydd y camau gweithredu yma yn allweddol o ran sicrhau bod plant a phobl ifainc yn cael eu hawl i ddigon o amser, lle a chaniatâd i chwarae.

# Cynllun Gweithredu

| Thema/Materion | Camau gweithredu i sicrhau digon o gyfleoedd chwarae | Blaenoriaethau | Maes Gwasanaeth |
|---|---|---|---|
| **Poblogaeth** | | | |
| Mater A: Nifer y plant o ran pob ystod oedran o fewn ei ardal / Mater B: Diwallu o ran Anghenion Amrywiol | Defnyddio Power BI i dreialu defnyddio dangosfwrdd data Chwarae. | 1. Hyrwyddo defnyddio data i annog cynllunio sydd wedi'i seilio ar dystiolaeth o ran cyfleoedd chwarae.<br>2. Nodi ffynonellau data priodol a lefel y dadansoddiad ar gyfer pob un (daearyddol / gweinyddol). | Cynllunio a Thrawsnewid Gwasanaethau |
| | Defnyddio data i gynnig cyfleoedd chwarae dan oruchwyliaeth i Blant sy'n Anabl yn y lleoliadau mwyaf priodol. | 1. Nodi meysydd lle mae angen darparu cyfleoedd chwarae i blant a phobl ifainc sydd ag anableddau.<br>2.Comisiynu darparwyr chwarae trydydd sector i ddarparu chwarae mewn ardaloedd sydd wedi'u nodi.<br>3. Nodi ffynonellau data mewn perthynas ag anableddau a'u diffiniadau. | Cynllunio a Thrawsnewid Gwasanaethau / Datblygu Chwarae / Carfan Plant Anabl / Chwaraeon y Gymuned |
| | Ehangu nifer y gweithgareddau Cymraeg sydd ar gael i blant, pobl ifainc a theuluoedd. | Cynyddu nifer y cyfleoedd cyfoethogi yn y Gymraeg. | Datblygu Chwarae / Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid (GYChI) / Chwaraeon y Gymuned / Gwasanaethau Diwylliannol / Siarad a Chwarae |
| | Cynnal archwiliadau mynediad ar bob darpariaeth chwarae a phobl ifainc mynediad agored. | Cynnal archwiliadau mynediad o holl ddarpariaethau y Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid ledled RhCT ac unrhyw ddarpariaethau chwarae newydd. | Datblygu Chwarae / Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid (GYChI) |



*Parhad

# Cynllun Gweithredu

| Thema/Materion | Camau gweithredu i sicrhau digon o gyfleoedd chwarae | Blaenoriaethau | Maes Gwasanaeth |
|---|---|---|---|
| **Y lleoedd sydd ar gael i blant chwarae** | | | |
| Mater C: Y man lle mae modd i blant chwarae ynddo, gan gynnwys mannau agored, ac unrhyw fan arall | Parhau i wella cynhwysiant a hygyrchedd mannau chwarae yn RhCT. | Cyflwyno'r rhaglen buddsoddi cyfalaf i wella'r cyfleoedd chwarae, cynhwysiant a mynediad yn y mannau sydd wedi'u dynodi i blant chwarae ynddyn nhw, ac o amgylch y rhain. | Hamdden, Chwaraeon a Pharciau |
| Mater Dd: Mesurau traffig sy'n cael eu defnyddio at ddibenion hyrwyddo mynediad at chwarae | Archwilio hyfywedd peilota menter Strydoedd Chwarae trwy gau strydoedd ar sail cynllunio hyn ymlaen llaw ar gyfer achlysuron cenedlaethol. | Gwneud y mwyaf o gyfleoedd i weithio mewn partneriaeth â chymunedau i hwyluso chwarae ar y stryd | Traffig |
| | Ymgysylltu â'r garfan Teithio Llesol er mwyn archwilio cyfleoedd ar gyfer chwarae ystyrlon ar hyd llwybrau cerddwyr. | Datblygu rhwydwaith o lwybrau teithio llesol a allai wasanaethu parciau a mannau chwarae cyfagos yn ogystal â galluogi defnyddwyr i gyrraedd cyfleusterau a gwasanaethau allweddol eraill. Canolbwyntio ar hyfforddiant beicio mewn ysgolion yn ogystal ag adeiladu seilwaith. Helpu i hyrwyddo llwybrau beicio a hawliau tramwy er mwyn annog gweithgaredd corfforol hamdden | Y Garfan Traffig / Diogelwch y Ffyrdd |
| | Ymgysylltu â'r garfan Llwybrau Diogel mewn Cymunedau er mwyn trin a thrafod cyfleoedd ar gyfer chwarae ystyrlon ar hyd llwybrau cerddwyr. | Efallai y bydd gwahoddiad i RhCT gyflwyno cais am gyllid i Lywodraeth Cymru at ddibenion cyflwyno cynllun o fesurau priffyrdd i wella llwybrau i ysgolion a chyfleusterau lleol er mwyn annog teithiau llesol trwy gerdded, beicio a sgwtera. | Uned Diogelwch y Ffyrdd |
| **Cyfleoedd dan oruchwyliaeth** | | | |
| Mater Ch: Darpariaeth chwarae dan oruchwyliaeth<br>Mater D: Codi tâl am ddarpariaeth chwarae (Poblogaeth) | Gwella ansawdd y ddarpariaeth chwarae ar hyd ystod Darparwyr Chwarae Trydydd Sector sydd wedi'u comisiynu. | Rhoi cynllun sicrhau ansawdd (CSA) newydd Chwarae RhCT ar waith ym mhob darpariaeth chwarae a phobl ifainc, mynediad agored, sydd wedi'i gomisiynu. | Datblygu Chwarae / Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid (GYChI) |
| | Atgyfnerthu Chwaraeon a gweithgarwch corfforol a chyflwyno'r rhain drwy'r Rhaglen Bwyd a Hwyl. Cyflwyno cymorthdaliadau i'r rhaglen gwyliau drwy gydol Haf o Hwyl gyda Chwaraeon RhCT. | Cynyddu nifer y cyfleoedd sydd ar gael a'r amrywiaeth o ran y rhain. | Chwaraeon yn y Gymuned |

*Parhad

# Cynllun Gweithredu

| Thema/Materion | Camau gweithredu i sicrhau digon o gyfleoedd chwarae | Blaenoriaethau | Maes Gwasanaeth |
|---|---|---|---|
| **Darparu cyfleoedd dan oruchwyliaeth** | | | |
| Mater E: Hyfforddiant gwaith chwarae a datblygu'r gweithlu | Archwilio’r posibilrwydd y gallai Llysgenhadon Ifainc – Chwaraeon ymgymryd â Hyfforddiant Gwaith Chwarae gyda’r bwriad o gydnabod pwysigrwydd chwarae mewn ffyrdd o fyw egnïol. | Defnyddio'r fideo ar-lein "Gadewch i Ni Siarad am Chwarae" yn hyfforddiant cychwynnol. | Chwaraeon yn y Gymuned |
| | Ymateb i bryderon y Trydydd Sector ynghylch costau hyfforddi. | Sicrhau bod yr holl hyfforddiant sy'n cael ei gynnig yn rhad ac am ddim/darparu cyllid ychwanegol yn gyfraniad at amser staff i ymgymryd â'r hyfforddiant gofynnol/rhannu arfer gorau. | Datblygu Chwarae / Y Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid (GYChI) |
| **Polisi, Ymgysylltu, Eiriolaeth a Gwybodaeth** | | | |
| Mater Dd: Mesurau sy'n cael eu defnyddio at ddibenion hyrwyddo mynediad at chwarae, gan gynnwys darparu gwybodaeth, cyhoeddusrwydd ac achlysuron | Diweddaru gwefan/map rhyngweithiol y Cyngor i amlygu meysydd chwarae sydd wedi gwella hygyrchedd i blant a phobl ifainc anabl. | Gofalu bod gwybodaeth yn hawdd ei chael a bod modd i deuluoedd sy'n chwilio am y wybodaeth yma, ei hidlo, ledled RhCT. | Hamdden, Chwaraeon a Pharciau |
| | Gwella hygyrchedd gwybodaeth ynghylch darpariaeth ac achlysuron dan oruchwyliaeth am ddim/cost isel drwy'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd. | Casglu amseroedd, dyddiadau a lleoliadau darpariaeth gwyliau dan oruchwyliaeth er mwyn llenwi amserlenni ar gyfer Cwm Rhondda, Cwm Cynon a Chwm Taf. | Datblygu Chwarae / Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd |



*Parhad

# Cynllun Gweithredu

| Thema/Materion | Camau gweithredu i sicrhau digon o gyfleoedd chwarae | Blaenoriaethau | Maes Gwasanaeth |
|---|---|---|---|
| **Polisi, Ymgysylltu, Eiriolaeth a Gwybodaeth** | | | |
| Mater F: Lefelau'r ymgysylltu â'r gymuned a'i chynnwys | Defnyddio Achlysuron Corfforaethol yn fodd o gyflwyno cyfleoedd chwarae mynediad agored a'u hyrwyddo. | Comisiynu Darparwyr Chwarae'r Trydydd Sector a'r Gwasanaeth Ieuenctid i ddarparu gweithgareddau. | Datblygu Chwarae / Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid (GYChI) |
| | Cynnal achlysuron Hwyl i'r Teulu am ddim dros y gwyliau gyda'r nod o hyrwyddo cyfleoedd chwarae rhyng-genhedlaeth. | Cydweithio amlasiantaeth i gynnig amrywiaeth o weithgareddau hamdden i blant, pobl ifainc a'u teuluoedd. | Datblygu Chwarae / Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid (GYChI) / Chwaraeon Yn Y Gymuned / Gwasanaethau Diwylliannol / Siarad a Chwarae / Creu Cydnerthedd ar gyfer Lles Emosiynol (CREW) |
| | Gofalu bod anghenion y gymuned yn cael eu hystyried mewn perthynas â datblygu/uwchraddio mannau chwarae sefydlog. | Cynnal amrywiol lefelau o ymgynghori i ganfod sut y gallai mannau sydd wedi'u dynodi ar gyfer chwarae ddiwallu anghenion chwarae'r gymuned yn well. Defnyddio data poblogaeth i reoli blaenoriaethau gwariant. | Hamdden, Chwaraeon a Pharciau |
| Mater Ff: I ba raddau y mae ystyriaeth yn cael ei rhoi mewn polisïau addysg a chynllunio datblygu lleol i'r angen i wella cyfleoedd chwarae i blant | Codi proffil chwarae yn ystod y diwrnod ysgol ymhlith staff addysgu a goruchwylwyr amser cinio. | Gweithio gyda chydweithwyr yn y maes Addysg er mwyn bod yn gymorth i ysgolion ddatblygu polisi chwarae. Gweithio gyda chydweithwyr yn y maes Addysg er mwyn bod yn gymorth i ysgolion ddatblygu polisi chwarae sy'n hyrwyddo pwysigrwydd chwarae drwy gydol y diwrnod ysgol. | Datblygu Chwarae / Ysgolion sy'n Canolbwyntio ar y Gymuned |
| | | Archwilio cyfleoedd i rannu arferion gorau o ran rhoi'r fenter Chwarae Cymru ar waith at ddibenion galluogi cymunedau i gael mynediad at diroedd yr ysgol ar ddiwedd y diwrnod ysgol; trin a thrafod cyfleoedd o ran defnyddio Swyddogion Ymgysylltu â Theuluoedd i arwain hyn. | Ysgolion Bro |
| | Datblygu rhaglen hyfforddi ar-lein gyda'r nod o greu 'Hyrwyddwyr Chwarae' ym mhob maes gwasanaeth. | Gweithio mewn partneriaeth â Dysgu a Datblygu i greu Modiwl Sefydlu Ar-lein ar gyfer Chwarae RhCT. | Datblygu Chwarae |
| | Codi proffil chwarae ymhlith gwneuthurwyr penderfyniadau allweddol. | Chwarae Cymru i gynnal sesiynau ar-lein ynghylch y dyletswyddau a'r pwysigrwydd sy'n ymwneud ag Asesiad o Ddigonolrwydd Cyfleoedd Chwarae. | Gwasanaethau i Blant a Phobl Ifainc |

# Atodiad

RHONDDA CYNON TAF

# Dadansoddi Themâu

**Poblogaeth:**
**Mater A:** Nifer y plant o ran pob ystod oedran o fewn ei ardal
**Mater B:** Anghenion plant o wahanol ddiwylliannau a chefndiroedd  ei ardal
**Mater D:** P'un a oes tâl am ddarpariaeth chwarae a pha leoliadau sy'n codi ffi

Yn dilyn ymgynghoriad, mae'r canlyniadau isod yn datgelu:

**Plant:**
- Dywedodd pobl ifainc mewn clwb ieuenctid y byddai'n well gyda nhw gael cludiant mwy hygyrch heb gost/cost isel

**Rhieni/Gwarcheidwaid/Cynhalwyr:**
- Dywedodd llawer o rieni y byddai'n well gyda nhw weithgareddau cost isel neu ddim cost gan bod llawer o weithgareddau sydd ar gael yn costio ac yn pentyrru pan mae mwy nag un plentyn
- Roedd costau parcio wrth fynychu achlysuron/gweithgareddau am ddim, h.y. costau parcio ger parciau, yn fater gafodd ei godi.

**Rhieni/Gwarcheidwaid Chwarae Addasu:**
- Roedd y rhan fwyaf o rieni yn y grŵp ffocws yn canmol y ddarpariaeth Chwarae Addasu yn fawr ac yn ddiolchgar am y cyfleoedd chwarae sy'n cael eu cynnig, ond y consensws yw nad oes digon o'r cyfleoedd yma ar gael.
- Mynegodd llawer o rieni bryderon ynghylch y ffaith nad yw pob oedolyn/aelod o staff sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifainc wedi'u hyfforddi'n ddigonol i ddeall anghenion plant sydd ag anghenion ychwanegol

> “Mae Chwarae Addasu wedi bod yn gefn gwirioneddol i mi gan nad oes gan fy mab awtistiaeth, mae ganddo gyflwr genetig prin, ac mae pob grŵp ADY arall ar gyfer plant sydd ag awtistiaeth. Mae'r staff yma wir yn gefnogol, ac rydyn ni'n teimlo ein bod ni'n cael ein croesawu. Dw i hefyd yn cael dod â fy mab arall ac rydw i'n cael amser gwerthfawr yn chwarae gydag e tra bod y staff yn bod yn gefn iddo. Oherwydd ei gyflwr, mae cyfyngiadau o ran y lleoedd mae modd i ni ymweld â nhw gan bod rhaid i ni ystyried ei gadair olwyn a'i gyfleusterau newid; mae popeth sydd ei angen arnom ni yn Capel. Mae hyn wedi fy helpu gyda fy iechyd meddwl”
>
> **Rhiant i blant 6 a 3 oed**

**Darparwyr Gwasanaethau Chwarae:**
- Mae darparwyr wedi tynnu sylw at bryderon cynyddol ynghylch cyfyngiadau cyllido o ystyried costau ynni cynyddol safleoedd a chyflogau staff

# Dadansoddi Themâu

| Cryfderau | Gwendidau | Cyfleoedd | Bygythiadau |
|---|---|---|---|
| Mynediad at setiau data cynhwysfawr (data poblogaeth, Mynegai Amddifadedd Lluosog Cymru (MALIC) a Cyfrifiad Ysgolion Blynyddol Ar Lefel Disgyblion (CYBLD) yn bennaf) gan alluogi'r Awdurdod ddeall y demograffig lleol; mae hyn yn cael ei ddefnyddio i fod yn gefn wrth wneud penderfyniadau ynghylch chwarae, h.y. comisiynu chwarae mynediad agored<br><br>Mae darpariaeth Chwarae Addasu yn darparu ar gyfer anghenion rhai plant a phobl ifainc sydd ag anghenion ychwanegol.<br><br>Dangosodd ymarfer dosbarthu cefn gwlad o'i gymharu â threfol bod darpariaeth chwarae mynediad agored a darpariaeth ieuenctid wedi'i rhannu'n deg.<br><br>Mae Darparwyr Chwarae ac Ieuenctid sefydledig yn cynnig darpariaeth mynediad agored gynhwysol a hygyrch ledled RhCT, sy'n ychwanegu gwerth at y ddarpariaeth helaeth sy'n cael ei chynnig gan y Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid (GYChI), Hamdden, Diwylliant a'r Celfyddydau. | Hyn a hyn o ddata sydd ar gael (neu fynediad at ddata o'r fath) yn ymwneud â phlant sydd ag anghenion ychwanegol/anableddau<br><br>Hyn a hyn o ddata sydd ar gael yn ymwneud â charfannau penodol o blant a phobl ifainc, megis Cynhalwyr Ifainc, Plant sy'n Derbyn Gofal, Ffoaduriaid a cheiswyr lloches<br><br>Ar hyn o bryd dim ond yn ystod gwyliau'r ysgol y mae Chwarae Addasu yn cael ei gynnal mewn 4 lleoliad ledled RhCT; mae'r lleoliadau wedi'u pennu gan ddyhead y Darparwyr Chwarae i gynnig hyn o fewn yr ardal sydd wedi'i dynodi iddyn nhw, yn hytrach nag anghenion teuluoedd/plant a phobl ifainc: mae hyn wedi arwain at broblemau hygyrchedd o ran teithio gan arwain at gostau wrth fynychu darpariaeth am ddim. | Defnyddio Power BI i dreialu defnyddio dangosfwrdd data Chwarae i gynnwys data perthnasol i lywio cynllunio wedi'i seilio ar dystiolaeth ledled y Grŵp Monitro Digonolrwydd Chwarae<br><br>Cynnig hyfforddiant i'r Grŵp Gweithredu Monitro Chwarae i ddefnyddio data yn effeithiol i lywio cynllunio<br><br>Defnyddio data mae'r Garfan Plant Anabl yn eu cadw, ochr yn ochr â data CYBLD, i gomisiynu darpariaethau Chwarae Addasu wedi'u targedu.<br><br>Cyfle ariannu i ehangu ystod oedran cymorth Gofalwyr Ifainc gan GYChI o 11+ | Newid i gontractau trafnidiaeth gyhoeddus a allai effeithio ar gost ac felly hygyrchedd<br><br>Prinder Cynorthwywyr Personol/1i1 ar gyfer rhoi cymorth i blant a phobl ifainc sydd ag anghenion ychwanegol/anableddau<br><br>Costau ynni cynyddol sy'n effeithio ar ffioedd llogi safleoedd o ran cynnal darpariaethau mynediad agored am ddim<br><br>Prinder darparwyr chwarae ac ieuenctid sy'n siarad Cymraeg<br><br>Mae gostyngiad mewn cyllid ar gyfer Chwaraeon a Hamdden yn llesteirio'r gallu i gynnal yr holl ddarpariaeth ar gyfer plant anabl. |

*Parhad

# Dadansoddi Themâu

| Cryfderau | Gwendidau | Cyfleoedd | Bygythiadau |
|---|---|---|---|
| Mae GYChl wedi gwella cynhwysiant ei glybiau ieuenctid ers gweithredu newidiadau yn dilyn archwiliad synhwyraidd o Glybiau Ieuenctid y mae'r Cyngor yn eu cynnal.<br><br>Mae Chwaraeon a Hamdden yn cynnig sesiynau i blant a phobl ifainc anabl<br><br>Ers 2022 mae gwaith adnewyddu wedi'i wneud mewn 41 o barciau i wella eu hygyrchedd a'u cynhwysiant.<br><br>Mae cludiant gwyliau cost isel ar gael i bobl ifainc gyda llawer o weithgareddau cost isel/am ddim yn cael eu cynnig i blant, pobl ifainc a'u teuluoedd<br><br>Mae GYChl yn darparu cyllid i Gynhalwyr Ifainc er mwyn cefnogi pobl ifainc 16-25 oed<br><br>Mae GYChl yn comisiynu Menter Iaith i ddarparu gweithgareddau a fforymau ieuenctid mynediad agored trwy gyfrwng y Gymraeg. | Yn ystod yr ymgynghoriad, tynnodd rhieni/gwarcheidwaid sylw at y ffaith bod costau yn bryder; doedd y costau yma ddim bob amser yn ymwneud yn benodol â'r gweithgaredd, ond yn gostau ynghlwm â hynny megis parcio.<br><br>Mae llawer o weithgareddau chwaraeon yn arwain at gostau ar gyfer rhieni/cynhalwyr ac yn aml mae gofyn archebu bloc | Adolygu DEWIS a deunyddiau sy'n cael eu hyrwyddo gan y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd i sicrhau bod defnyddwyr gwasanaeth yn gallu nodi darpariaeth sy'n diwallu anghenion penodol | Mae darpariaeth am ddim yn dibynnu ar gyllid grant y mae'n rhaid ei ddefnyddio fwyfwy i amsugno costau cynyddol cyflogau staff/costau ar waith; os bydd hyn yn parhau yn absenoldeb cynnydd digonol mewn grantiau, bydd angen lleihau nifer y sesiynau am ddim sy'n cael eu cynnig. |

**Y lleoedd sydd ar gael i blant chwarae:**
**Mater C:** Y man lle mae modd i blant chwarae, gan gynnwys mannau agored, ac unrhyw fan arall
**Mater Dd:** Mesurau traffig sy'n cael eu defnyddio at ddibenion hyrwyddo mynediad at chwarae
**Mater Ff:** I ba raddau y mae ystyriaeth yn cael ei rhoi mewn polisïau addysg a chynllunio datblygu lleol i'r angen i wella cyfleoedd chwarae i blant

Yr hyn y mae ymgynghoriadau yn ei ddatgelu:

Yn dilyn ymgynghoriad, mae'r canfyddiadau canlynol wedi datgelu:
Plant:

- Tynnodd aelodau grwpiau ffocws gyda phobl ifainc 11-14 oed sylw at y ffaith eu bod yn cymdeithasu'n aml, yn bennaf trwy fynychu clybiau ieuenctid, clybiau chwaraeon neu chwarae pêl-droed/rygbi mewn meysydd lleol. Dywedodd llawer o'r cyfranogwyr fod yn well gyda nhw gludiant cost isel neu ddim cost o ran caniatáu iddyn nhw gael mynediad rhwydd at weithgareddau.
- Dywedodd 79.15% eu bod yn chwarae 'y rhan fwyaf o ddyddiau' neu 'ychydig ddiwrnodau'r wythnos'
- Dywedodd 76.35% fod ganddyn nhw 'lawer' neu 'ddigon o amser' i chwarae/treulio amser gyda ffrindiau. Dywedodd 69.75% bod modd iddyn nhw chwarae ym 'mhob' neu 'rhai' o'r lleoedd yr hoffen nhw fod ynddyn nhw, gyda 29.07% yn nodi mai dim ond 'mewn ychydig' neu bron dim o'r lleoedd yr hoffen nhw chwarae ynddyn nhw mae modd iddyn nhw wneud hynny.
- Dewisodd 77.70% yr opsiwn eu bod yn chwarae/cymdeithasu yn eu tŷ eu hunain neu dŷ ffrind
- Dywedodd 45.2% fod y lleoedd maen nhw'n chwarae ynddyn nhw'n "grêt" / Dywedodd 45.2% "maen nhw'n iawn" gyda 2.5% yn dweud "maen nhw'n ofnadwy"
- Dywedodd 88.7% eu bod nhw naill ai “bob amser” neu “fel arfer” yn teimlo’n ddiogel wrth chwarae/treulio amser gyda'u ffrindiau, gyda 3.52% yn nodi nad oedden nhw'n teimlo’n ddiogel



*Parhad

- Ymatebodd 40.81% “Mae’r rhan fwyaf o oedolion yn grêt ac yn  hapus efo plant yn chwarae” / Dewisodd 26.42% “mae’r rhan fwyaf o oedolion yn iawn” / Ymatebodd 11.74% fod oedolion naill ai’n “anhapus” ac “ddim yn hoffi/casáu” plant yn chwarae
- Ymatebodd 65.9% o blant eu bod nhw'n cael chwarae allan ar eu pennau eu hunain gyda ffrindiau. O ran y rhai a atebodd:
    - 68.53% (307) 8-11 oed
    - 22.99% (103) 5-7 oed
    - 6.7% (30) 12-14 oed
- Wrth deithio i chwarae, roedd 33.19% yn cerdded neu'n reidio beic gyda ffrindiau / 27.31% yn teithio mewn car gydag oedolyn / 19.09% yn cerdded neu'n reidio beic dan oruchwyliaeth oedolyn
- Ymatebodd 36.65% fod cyfleoedd i chwarae/treulio amser yn “grêt” / Ymatebodd 31.86% “mae’n dda, ond byddai modd ei wneud hyd yn oed yn well” / Ymatebodd 1.91% “mae’n ofnadwy”

O'r rhai a ymatebodd “Mewn clwb ieuenctid” yn ôl ardal:
- Roedd 26.76% (19) o Gwm Cynon
- Roedd 29.58% (21) o Gwm Rhondda
- Roedd 38.03% (27) o Gwm Taf

O'r rhai a ymatebodd “Mewn clwb ar ôl ysgol” yn ôl ardal:
- Roedd 33.60% (83) o Gwm Cynon
- Roedd 35.63% (88) o Gwm Rhondda
- Roedd 17.41% (43) o Gwm Taf

O'r rhai a ymatebodd “Mewn canolfan y gymuned neu ganolfan hamdden” yn ôl ardal:
- Roedd 35.75% (64) o Gwm Cynon
- Roedd 25.70% (46) o Gwm Rhondda
- Roedd 25.14% (45) o Gwm Taf

O'r rhai a ymatebodd “Mewn canolfan chwarae dan do” yn ôl ardal:
- Roedd 42.80% (104) o Gwm Cynon
- Roedd 22.22% (54) o Gwm Rhondda
- Roedd 19.75% (48) o Gwm Taf

O'r rhai a ymatebodd “Mewn ardal chwarae gyda siglenni, sleidiau ac offer chwarae eraill” yn ôl ardal:
- Roedd 39.52% (181) o Gwm Cynon
- Roedd 26.64% (122) o Gwm Rhondda
- Roedd 17.90% (82) o Gwm Taf

## When you're not in school, what types of places would you like to play or hang out in?

| | |
|---|---|
| Yn fy nhŷ neu dŷ ffrind | 526 |
| Mewn ardal chwarae gyda siglenni, sleidiau ac offer chwarae eraill | 458 |
| Yn y strydoedd ger fy nhŷ | 343 |
| Yn fy ngardd neu ardd ffrind | 335 |
| Ar faes chwarae fy ysgol | 318 |
| Ar gae pêl-droed ger fy nhŷ | 267 |
| Mewn parc chwarae antur neu gynllun chwarae | 261 |
| Mewn clwb ar ôl ysgol | 247 |
| Mewn canolfan chwarae dan do | 243 |
| Ar ardal wyrdd leol | 229 |
| Mewn parc beicio neu barc sglefrio | 213 |
| Rhywle gyda dwr neu dywod | 196 |
| Mewn canolfan y gymuned neu ganolfan hamdden | 179 |
| Mewn ardal lle mae llwyni, coed a blodau | 175 |
| Yn y goedwig ger fy nhŷ | 133 |
| Rhywle arall (dyweda ble) | 81 |
| Mewn clwb ieuenctid | 71 |
| Dim ymateb | 4 |

**Cyfanswm yr Ymatebwyr 4275**

*Roedd modd i'r ymatebwyr ddewis sawl opsiwn

# Dadansoddi Themâu

**Ymhlith ymatebion cyffredin mae:**
**Cryfderau**

- Niferoedd o ran parciau
- Clybiau ieuenctid
- Cynlluniau chwarae
- Mannau agored / glaswelltog
- Cyfleoedd i chwarae pêl-droed / chwaraeon
- Cyfleoedd wedi'u strwythuro, h.y. Nofio a gymnasteg

**Meysydd i'w gwella:**

- Bwlio
- Ffyrdd
- Traffig
- Diogelwch y Ffyrdd – un cais am groesfan sebra
- Cyflymder ceir
- Sbwriel a gwastraff anifeiliaid anwes
- Diffyg darpariaeth ar gyfer y rhai sydd ag Anghenion Dysgu Ychwanegol (ADY)
    - Mewn ymateb yn ymwneud â hyn:
    - Cyfleusterau ar gyfer y sawl sy'n defnyddio cadair olwyn megis ystafelloedd ymolchi ac ystafelloedd newid
    - Addasrwydd y ddarpariaeth ar gyfer y sawl sy'n defnyddio cadair olwyn
- Ymddygiad pobl ifainc eraill (gan gynnwys rhegi)
- Perthnasoedd rhwng pobl ifainc ac oedolion
- Rhagor o draciau BMX a/neu feiciau (roedd hwn yn ymateb poblogaidd yn ardal Cynon yn benodol)
- Rhagor o offer mewn mannau chwarae
- Yn fwy addas ar gyfer plant hŷn
- Opsiynau mwy diogel ar gyfer reidio beiciau
- Atgyweirio offer presennol
- Rhagor o ddarpariaeth ADY
- Rhagor o ardaloedd chwarae neu leoedd i fynd iddyn nhw
- Rhagor o weithgareddau / darpariaeth ar ôl ysgol

**Rhieni/Gwarcheidwaid/Cynhalwyr:**
**Crynodeb o’r prif ganfyddiadau:**

- Mae parciau fel arfer yn cael eu cynnal a'u cadw'n dda ac maen nhw'n hygyrch
- Y cyfyngiadau cyffredin a gafodd eu nodi o ran chwarae oedd pryderon ynghylch traffig gyda ffyrdd prysur, argaeledd parcio ar gyfer parciau a goleuadau yn ystod misoedd y gaeaf. Cwblhaodd 40 o rieni arolwg:

Mynegodd 22.2% bod traffig/ceir cyflym yn broblem
Dywedodd 30.6% fod neb gyda'u plentyn i chwarae gyda nhw
Roedd 45% naill ai'n anghytuno'n gryf neu'n anghytuno bod digon o gyfleoedd chwarae wedi'u trefnu
Roedd 46% yn cytuno neu'n cytuno'n gryf bod digon o gyfleoedd am ddim, gyda 40% yn anghytuno

- **Rhiant (plentyn 10 oed):** angen rhagor o hysbysebu / dim llawer o gyfleoedd chwarae yn yr ardal a hyd yn oed llai yn ystod gwyliau ysgol / gormod o ffyrdd prysur / plant hŷn fel arfer mewn parciau lleol felly allan nhw ddim gwneud pob gweithgareddau ac mae'n rhaid iddyn nhw adael yn gynnar
- **Rhiant (plentyn 8 oed):** Mae'r parciau cyfagos yn braf ac yn lân
- **Rhiant ynghylch cyfyngiadau:** Mae yna ffyrdd y mae'n rhaid eu croesi ac mae'r ffordd rydyn ni'n byw arni yn brysur iawn.
- **Rhiant:** Mae'r parciau'n hygyrch ac ar y cyfan yn lân ac yn ddeniadol.
- **Rhiant (plentyn 5 oed):** Dw i'n meddwl y byddai modd gwella cyfleoedd chwarae pe bai'r offer yn cael ei drwsio a phe bai twmpathau cyflymder yn cael eu gosod mewn ardaloedd â nifer o adeiladau er mwyn gwneud y strydoedd yn fwy diogel i blant chwarae y tu allan.
- **Rhiant (plentyn 10 oed):** Dw i'n deall pwysigrwydd chwarae ac fe hoffwn i i fy mhlentyn gael mynediad at ragor o gaeau 3G, rhagor o gyfleoedd chwaraeon a chynlluniau chwarae i blant 8-11 oed.

**Canfyddiadau Cyngor yr Ysgol:**
Adroddodd cyngor yr ysgol fod mwy o amseroedd chwarae yn ystod y diwrnod ysgol i blant oedran meithrin a derbyn nag sydd i blant Blwyddyn 1 i 6. Adroddodd yr holl blant eu bod wedi cael eu hegwyl foreol a'u hegwyl amser cinio ond heb gael egwyl prynhawn oherwydd bod gwaith ysgol yn cael blaenoriaeth. Nododd 90% o'r plant eu bod wrth eu bodd neu'n hoffi eu hamser chwarae, gyda 10% ddim yn hoffi eu hamser chwarae. Adroddodd yr holl blant eu bod eisiau rhagor o amser i chwarae yn ystod y diwrnod ysgol ac roedd arnyn nhw hefyd eisiau meysydd chwarae gwell a chyfarpar gwell ar gyfer chwarae.

**Cryfderau**
- Mae amseroedd chwarae yn caniatáu i blant greu cyfeillgarwch
- Mae'n fuddiol o ran bod yn gymorth iddyn nhw ddysgu gan eu bod nhw'n defnyddio egni
- Mae plant yn mwynhau cael rhyddid i chwarae a rhedeg o gwmpas yn yr awyr iach

**Meysydd i'w datblygu**
- Llai o ymladd a dadlau rhwng y plant
- Rhagor o offer
- Rhagor o amser i chwarae
- Iardiau ysgol gwell er diogelwch

**Rhieni/Gwarcheidwaid Chwarae Addasu:**
Mae teuluoedd plant sydd ag ADY/Anableddau yn teimlo bod eu plant ydan anfantais o ran eu cyfleoedd chwarae. Drwy drafodaethau, cafodd ymwybyddiaeth a hyfforddiant staff eu hamlygu a hefyd mae teuluoedd yn teimlo bod yr hyn sy'n cael ei gyflwyno yn gynnig symbolaidd i dicio blwch.

**Cryfderau**

- Mae staff yn Chwarae Addasu yn deall plant sydd ag ADY
- Mae tebygrwydd ymhlith plant/rhieni/gwarcheidwaid yn helpu teuluoedd i deimlo eu bod yn cael eu cefnogi ac nad ydyn nhw'n cael eu barnu.
- Mae'r amgylcheddau'n ddiogel ac yn saff

**Meysydd i'w datblygu**

- Gwella cyhoeddusrwydd ynghylch achlysuron chwarae mewn ardaloedd lleol
- Cysylltiadau trafnidiaeth mwy diogel.
- Sesiynau rheolaidd nid dim ond o bryd i'w gilydd
- Amseroedd gwell ar gyfer sesiynau
- Rhagor o sesiynau Chwarae Addasu yn ystod y tymor
- Rhagor o sesiynau ADY yn enwedig ar benwythnosau
- Rhagor o sesiynau tawel mewn pyllau nofio
- Gweithwyr proffesiynol cymwys i staffio sesiynau
- Cymorth ar gyfer rhieni sengl
- Tegwch o ran lle mae sesiynau'n cael eu cynnal ledled RhCT

# Dadansoddi Themâu

"Dydw i ddim yn gallu mynd i'r ganolfan chwaraeon gan nad ydw i'n gyrru, ac mae gen i 3 o blant o dan 9 oed, ac mae gyda fy mab 9 oed anawsterau dysgu difrifol ac mae angen cymorth 1:1 arno ac mae'n defnyddio cadair olwyn. I gerdded yno, rhaid i mi groesi pont gul nad oes arni lwybr cyhoeddus. Dydw i ddim yn gallu defnyddio pont gyhoeddus y ganolfan chwaraeon gan fod grisiau yno a dydw i ddim yn gallu cael y gadair olwyn drosti."

**Dienw, plentyn sydd ag ADY 9 oed, brodyr a chwiorydd 5 a 3 oed**

"Mae Chwarae Addasu wedi bod yn gefn mawr i fy nheulu i. Dw i'n gofalu am fy nau ŵyr, mae gyda'r ddau Awtistiaeth. Does dim byd ar gael i blant sydd ag anghenion ac mae'n rhaid i mi ymladd i gael unrhyw gymorth gan unrhyw un. Byddwn i wrth fy modd yn gweld playadapt yn cael ei gynnal ar benwythnosau ac ar ôl ysgol."

**Mam-gu i ddau o blant 10 a 7 oed**

"Braf iawn cael rhywfaint o ddarpariaeth ym Mrynna, mae'n ymddangos bod popeth ar gyfer ADY i fyny'r cymoedd a dydw i ddim yn gyrru felly alla i ddim eu cyrraedd nhw"

**Rhiant plentyn 13 oed**

"Y rhwystr mwyaf rydw i wedi'i wynebu gyda <XXX> yw diffyg dealltwriaeth rhai aelodau o staff y cyngor. Rydyn ni'n mynd i sesiynau ADY ond dydyn nhw ddim yn deall anghenion fy mab, rydyn ni wedi gorfod gadael gan fod eu ffiniau a'u cyfyngiadau wedi arwain at<XXX> golli rheolaeth, mae angen hyfforddi staff"

**Rhiant i blentyn 6 oed**

**Darparwyr Gwasanaethau Chwarae:**

**Cryfderau:**

- Llawer o fannau agored - meysydd chwarae - parciau

**Meysydd i'w datblygu:**

- Hygyrchedd ar gyfer pawb
- Offer hygyrch mewn parciau fel y gall plant anabl chwarae mewn parciau yn eu cymunedau, fel nad oes rhaid iddyn nhw deithio
- Dyblygu darpariaeth o ran darparwyr
- Roedd y Ganolfan Hamdden yn cynnal sesiynau nofio ar yr un diwrnod â'r garfan Chwarae Mynediad Agored, ac roedd hyn yn amlwg o ran presenoldeb
- Goleuadau gwael y tu allan yn y nos

**Ymgynghoriad cymunedol a gafodd ei gynnal gan Swyddog Cymunedau Diogel:**

**Mae'r canlynol yn rhwystro cyfleoedd chwarae/ yn feysydd cyffredinol i'w datblygu:**

- y cyfleusterau parcio sydd ar gael, digon o oleuadau stryd a phobl yn yfed alcohol mewn mannau chwarae cyhoeddus
- diffyg goleuadau stryd, teledu cylch cyfyng, cynnal a chadw mannau cyhoeddus a rhagor o glybiau/gwersi am ddim i bobl ifainc mewn canolfannau hamdden/campfeydd

**Mae gyda RhCT lawer o gryfderau o ran cyfleoedd chwarae, megis:**

- Dywedodd yr holl ymatebwyr eu bod nhw'n teimlo bod RhCT yn darparu digon o fannau chwarae cyhoeddus, clybiau a chyfleusterau hamdden. Roedden nhw'n teimlo yn gyffredinol bod y llyfrgelloedd yn darparu llawer o grwpiau cymunedol i'w mynychu, yn enwedig ar gyfer rhieni newydd. Byddai rhai yn hoffi gweld y lido awyr agored neu'r pyllau nofio yn ailagor yn y parciau

# Dadansoddi Themâu

| Cryfderau | Gwendidau | Cyfleoedd | Bygythiadau |
|---|---|---|---|
| Maint ac ansawdd cyffredinol parciau gyda buddsoddiad da<br><br>Mae ystyriaeth yn cael ei rhoi i chwarae mewn llawer o bolisïau cynllunio<br><br>Llawer iawn o fannau agored/gwyrdd at ddibenion annog chwarae yn yr awyr agored<br><br>Chwarae, Ieuenctid. Mae Hamdden, Celfyddydau a Diwylliant yn cynnig amrywiaeth o ddarpariaeth dan oruchwyliaeth<br><br>Mae'r Awdurdod Lleol wedi sefydlu protocolau rhannu gyda Heddlu De Cymru ynghylch mynediad at wybodaeth ynghylch Gwrthdrawiadau Anafiadau Personol (GAPau) ac yn defnyddio hyn i fonitro diogelwch ffyrdd i benderfynu ar gynllunio ar gyfer Gwelliannau lle bo angen. | Mae Ardaloedd Gemau Aml-ddefnydd (AGAddau)/caeau 3G yn aml yn cael eu cloi oherwydd difrod sy'n cael ei achosi a'r costau dilynol sydd ynghlwm ag atgyweirio hyn<br><br>Yn anaml y mae tiroedd ysgol ar gael i gymunedau y tu allan i ddiwrnod yr ysgol<br><br>Dyw pob man agored ddim yn cael ei gynnal a'i gadw'n effeithiol<br><br>Dyw parciau lleol llai eu maint ddim yn cael eu cynnal a'u cadw cystal â pharciau mwy eu maint<br><br>Mae ardaloedd tagfeydd/cyflymder traffig yn rhwystr sylweddol i blant chwarae yn yr awyr agored o safbwynt y plentyn a'r rhiant | Defnyddio cyllid Teithio Llesol i ddarparu cyfleoedd chwarae ar hyd llwybrau cerddwyr<br><br>Gwella diogelwch ffyrdd drwy gyfrwng rhagor o gyfleusterau croesi er mwyn lleihau niferoedd damweiniau a lleddfu pryderon rhieni/gynhalwyr<br><br>Treialu menter Strydoedd Chwarae drwy ymgorffori'r Agenda Chwarae mewn trefniadau cau strydoedd ymlaen llaw ar gyfer dathliadau cenedlaethol - defnyddio cymorth gan Lywodraeth Cymru a Chwarae Cymru<br><br>Treialu Strydoedd Chwarae drwy ddathliadau Diwrnod Chwarae Cenedlaethol yn flynyddol (Awst) | Mannau agored ar gyfer chwarae – prinder tai yn arwain at bwysau cynyddol i adeiladu rhagor o gartrefi ar y mannau sydd ar gael<br><br>Mae sylw yn y cyfryngau cymdeithasol/cyfryngau yn aml yn cynyddu pryderon ynghylch damweiniau traffig/cerddwyr<br><br>Cyllid – er bod Strydoedd Chwarae yn niwtral o ran cost, mae angen adnoddau o ran amser staff er mwyn ei gydlynu<br><br>Efallai nad yw cymunedau o blaid 'cau' strydoedd<br><br>AGAddau – goblygiadau cost sylweddol o ran adeiladu, rheoli a chynnal a chadw; llawer yn destun difrod |

*Parhad

# Dadansoddi Themâu

| Cryfderau | Gwendidau | Cyfleoedd | Bygythiadau |
|---|---|---|---|
| Yn rhan o'r agenda Teithio Llesol, mae llawer iawn o waith wedi'i wneud i wella diogelwch ffyrdd ar gyfer plant a phobl ifainc, megis Hyfforddiant Beicio Safonau Cenedlaethol sy'n cael ei gyflwyno i 700 o ddisgyblion bob blwyddyn a Kerbcraft i blant iau bob blwyddyn. | | Trin a thrafod y posibilrwydd y gallai Addysg agor tiroedd yr ysgol unwaith yr wythnos ar ôl ysgol/yn ystod gwyliau ar sail treialu – y posibilrwydd o gysylltu hyn â rôl Swyddogion Ymgysylltu â Rhieni a defnyddio'r amser 'chwarae rhydd' i ymgysylltu â rhieni a bod yn gefn iddyn nhw ar y safle.<br><br>Defnyddio cyllid cyfalaf ar gyfer buddsoddi mewn Parciau i wella hygyrchedd parciau chwarae ar gyfer plant a phobl ifainc anabl | Ar hyn o bryd dyw cyllid Diogelwch ar y Ffyrdd Llywodraeth Cymru ddim yn ei gwneud hi'n bosibl i hyfforddiant diogelwch ffyrdd gael ei gyflwyno i bob ysgol ledled RhCT. |

**Darpariaeth dan oruchwyliaeth**
**Mater Ch:** Darpariaeth chwarae dan oruchwyliaeth
**Mater E:** Hyfforddiant gwaith chwarae a datblygu'r gweithlu

## Yr hyn y mae ymgynghoriadau wedi'i ddatgelu:

**Rhieni/Gwarcheidwaid Chwarae Addasu:**

Does dim digon o ddarpariaeth dan oruchwyliaeth am ddim i blant sydd ag ADY; yn RhCT mae gennych Chwarae Addasu ond dim ond yn ystod y gwyliau y mae hwn yn cael ei gynnal, mae nofio am ddim, ond mae hwn yn cael ei gynnal ar adegau anghyfleus. Rhagor ar gyfer plant sydd ag ASA nag sydd ar gyfer anableddau eraill.

**Cryfderau**

- Mae sesiynau Chwarae Addasu ar gael

**Meysydd i'w gwella**

- Rhagor o sesiynau Chwarae Addasu; penwythnosau ac yn ystod y tymor

## Darparwyr Gwasanaethau Chwarae:

**Cryfderau:**

- Darparwyr mae pobl yn ymddiried ynddyn nhw, a sydd wedi'u sefydlu ers tro yn cynnal sesiynau chwarae
- Sefydlogrwydd sesiynau chwarae a ieuenctid

**Meysydd i'w datblygu:**

- Rhagor o gydweithio rhwng yr ALl a'r Trydydd Sector / Cyllid
- Sesiynau chwarae ac ieuenctid yn cael eu cynnig ar benwythnosau

# Dadansoddi Themâu

| Cryfderau | Gwendidau | Cyfleoedd | Bygythiadau |
|---|---|---|---|
| Mae amrywiaeth eang o gyfleoedd chwarae, ieuenctid, hamdden a chelfyddydau ar gael i blant a theuluoedd gan lu o wasanaethau'r Cyngor gan gynnwys Siarad a Chwarae, Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid, Achlysuron, Celfyddydau, Llyfrgelloedd, Chwaraeon a Hamdden. Mae'r Cyngor hefyd yn comisiynu sefydliadau Chwarae a Ieuenctid y Trydydd Sector i ddarparu cyfleoedd chwarae pellach.<br><br>Mae pwysigrwydd chwarae yn treiddio i'r Agenda Blynyddoedd Cynnar a chymorth Rhianta gyda sesiynau chwarae dan oruchwyliaeth yn cael eu cyflwyno gan y Carfanau Siarad a Chwarae Teuluoedd Cydnerth a Rhianta.<br><br>Mae gyda rhai darpariaethau Chwarae-Ieuenctid brosesau pontio effeithiol o ran cynnal ymgysylltu â chyfleoedd mynediad agored | Mae prosesau pontio rhwng yr holl ddarpariaeth Chwarae-Ieuenctid yn anghyson ac yn llai effeithiol yn yr achosion hynny pan nad yw darparwyr yn cynnig gwasanaethau Chwarae ac Ieuenctid o fewn yr un ardal.<br><br>Mae'r adran Chwaraeon wedi nodi gostyngiad sylweddol mewn ymgysylltu â phlant a phobl ifainc oedran uwchradd<br><br>Ac eithrio achlysuron pob nawr ac yn y man ar benwythnosau, mae'r rhan fwyaf o gyfleoedd sydd ar gael yn digwydd ar ôl ysgol neu yn ystod gwyliau ysgol yn unig.<br><br>Mae'r amrywiaeth eang o oruchwyliaeth sydd ar gael i ryw raddau yn hyrwyddo'r syniad bod rhaid goruchwylio chwarae ac felly'n lleihau pwysigrwydd chwarae rhydd, heb strwythur (cysylltiadau â Pholisi, Eiriolaeth, Ymgysylltu) | Datblygu partneriaethau rhwng Darparwyr Chwarae'r Trydydd Sector a Chwaraeon a Hamdden er mwyn cyfeirio at gyfleoedd sydd ar gael i blant a theuluoedd<br><br>Datblygu partneriaethau ymhellach rhwng Ieuenctid, Ysgolion a Chwaraeon i hyrwyddo ymgysylltu cynaliadwy yn weithredol drwy gydol y blynyddoedd yn eu harddegau<br><br>Datblygu rhaglen gydlynol o gyfleoedd ar gyfer penwythnosau Gwasanaethau Chwarae ac Ieuenctid i archwilio'r posibilrwydd o gynyddu costau comisiynu'r Trydydd Sector i gynnwys cyfraniad tuag at amser staff ar gyfer mynychu hyfforddiant | Mae gostyngiad mewn cyllid ar gyfer Chwaraeon a Hamdden wedi arwain at ostyngiad yn nifer y staff, ac mae llai o gyllid gan Chwaraeon Anabledd Cymru wedi gwaethygu hyn ymhellach.<br><br>Mae i gynnig darpariaeth ar benwythnosau oblygiadau sylweddol o ran costau a dyw cyllidebau presennol ddim yn galluogi hyn; byddai hyn hefyd yn arwain at ostyngiad sylweddol mewn darpariaeth yn ystod gwyliau ysgol a/neu ar ôl ysgol.<br><br>Gall pwysau costau byw arwain at niferoedd is yn mynychu darpariaeth, hyd yn oed os yw am ddim, oherwydd costau cysylltiedig megis teithio a pharcio |

*Parhad

# Dadansoddi Themâu

| Cryfderau | Gwendidau | Cyfleoedd | Bygythiadau |
|---|---|---|---|
| Mae gyda GYChl bartneriaethau cryf â'r adrannau Chwaraeon a Hamdden o ran cyfeirio pobl at gyfleoedd hamdden, ac, ar adegau, hwyluso eu hymgysylltiad â nhw.<br><br>Mae cyfleoedd hyfforddi sy'n cael eu cynnig i'r gweithlu chwarae ac ieuenctid yn helaeth ac yn amrywio o hyfforddiant gorfodol i gyrsiau arfer gorau i uwchsgilio staff a chyfoethogi'r cyfleoedd sy'n cael eu cynnig.<br><br>Mae darparwyr gofal plant a Dechrau'n Deg yn ymgymryd â hyfforddiant megis Therapi Chwarae a Deall Chwarae er mwyn cyflwyno chwarae o ansawdd uchel yn rhan o'r ddarpariaeth.<br><br>Yn y grŵp Monitro Digonolrwydd Chwarae mae cynrychiolaeth o bob maes gwasanaeth allweddol sy'n cynnig darpariaeth dan oruchwyliaeth. | Gall yr amrywiaeth eang o ddarpariaeth sydd ar gael fod yn llethol ac yn anodd ei lywio mewn Awdurdod Lleol mor fawr, yn enwedig yn ystod gwyliau ysgol pan fydd teuluoedd yn chwilio am yr wybodaeth yma.<br><br>Mae nifer y bobl sy'n manteisio ar hyfforddiant sy'n cael ei gynnig i weithlu Chwarae ac Ieuenctid y Trydydd Sector yn isel, gyda Darparwyr yn nodi mai'r prif rwystr yw costau o ran talu am amser staff ar gyfer mynychu hyfforddiant<br><br>Dyw pwysigrwydd chwarae a'r asesiad digonolrwydd ddim yn cael ei ddeall yn eang gan y sawl sy'n gwneud penderfyniadau allweddol yn yr Awdurdod Lleol.<br><br>Ehangu cyfleoedd hyfforddi Chwarae anffurfiol y tu hwnt i'r gweithlu Chwarae-Ieuenctid drwy ddatblygu pecyn hyfforddi ar-lein i hyrwyddo 'Hyrwyddwyr Chwarae' o fewn pob gwasanaeth Awdurdod Lleol<br><br>Bylchau yn y ddarpariaeth yn y Gymraeg ar gyfer Chwarae, Ieuenctid a Hamdden | GYChl i gynnal archwiliad o Weithlu'r Gwasanaeth Ieuenctid, gan efelychu'r broses sy'n cael ei defnyddio gan y Garfan Datblygu Chwarae.<br><br>Bydd GYChl yn defnyddio set sgiliau a phrofiad Gweithwyr Ieuenctid Awdurdodau Lleol i ddarparu hyfforddiant am ddim i'r Trydydd Sector ar hyd ystod gwasanaethau chwarae ac ieuenctid er mwyn gwella cysondeb yn y ddarpariaeth.<br><br>Chwarae Cymru i gyflwyno sesiwn ar gyfer y sawl sy'n gwneud penderfyniadau allweddol ynghylch dyletswyddau Awdurdodau Lleol yn ymwneud â digonolrwydd chwarae<br><br>Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd i lunio amserlen o ddarpariaeth dan oruchwyliaeth cyn pob gwyliau ysgol a'i rhannu gyda defnyddwyr y gwasanaeth.<br><br>Ymgorffori'r model Sicrhau Ansawdd Chwarae a'i ymestyn i gynnwys y gwasanaeth ieuenctid i sicrhau cysondeb o ran y ddarpariaeth sy'n cael ei chynnig | Mae prosesau Sicrhau Ansawdd yn gofyn am amser Darparwyr, ac mae goblygiadau o ran costau i hyn<br><br>Prinder darparwyr Chwarae ac Ieuenctid Cymraeg |

**Polisi, Ymgysylltu, Eiriolaeth a Gwybodaeth**
**Mater Dd:** Mesurau sy'n cael eu defnyddio at ddibenion hyrwyddo mynediad at chwarae, gan gynnwys darparu gwybodaeth, cyhoeddusrwydd ac achlysuron
**Mater E:** Cyfleoedd hyfforddi ar gyfer y gweithlu chwarae
**Mater F:** Lefelau'r ymgysylltu â'r gymuned a'i chynnwys
**Mater Ff:** I ba raddau y mae ystyriaeth yn cael ei rhoi mewn polisïau addysg a chynllunio datblygu lleol i'r angen i wella cyfleoedd chwarae i blant

**Rhieni/Gwarcheidwaid/Cynhalwyr:**
- Mae llawer o achlysuron sydd heb gael eu hysbysebu'n ddigon da ac felly'n maen nhw'n cael eu hanghofio (hysbysebu sy'n gweithio e.e., stribedi ar y ffyrdd)
- Cytunodd 92.3% o rieni a gwblhaodd holiadur fod chwarae yn dda i iechyd a hapusrwydd plentyn

**Chwarae Addasu Rhieni/Gwarcheidwaid:**
- Mae hysbysebu'n wael ar gyfer sesiynau, fe adroddon nhw eu bod yn dibynnu ar rieni eraill am wybodaeth ynghylch gweithgareddau a sesiynau ADY

**Darparwyr Gwasanaethau Chwarae:**
**Cryfderau**
- Cymunedau'n ymgysylltu

**Meysydd i'w datblygu:**
- Pobl hŷn ddim yn derbyn Pobl Ifainc
- Rhieni ddim yn caniatáu i blant a phobl ifainc chwarae y tu allan/gadael y tŷ ar ôl ysgol
- Pob cymuned yn gwerthfawrogi pwysigrwydd chwarae

**Ymgynghoriad cymunedol a gafodd ei gynnal gan Swyddog Cymunedau Diogel:**
- Roedd rhai oedolion yn teimlo dan fygythiad pan fo grwpiau mawr o bobl ifainc mewn mannau cyhoeddus, er bod 94% o'r rhai a gafodd eu holi yn gwerthfawrogi pwysigrwydd plant a phobl ifainc yn chwarae.

# Dadansoddi Themâu

| Cryfderau | Gwendidau | Cyfleoedd | Bygythiadau |
|---|---|---|---|
| Mae'r gwasanaeth Creu Cydnerthedd ar gyfer Lles Emosiynol yn defnyddio therapi chwarae yn sail i ymyrraeth ac yn cyfeirio at chwarae mynediad agored cyffredinol a darpariaeth ieuenctid o ran bod yn strategaeth ymadael.<br><br>Mae gyda chyfryngau cymdeithasol GYChI gyrhaeddiad da ac mae'n hyrwyddo'r wybodaeth ddiweddaraf<br><br>Mae Darparwyr Chwarae ac Ieuenctid yn defnyddio eu tudalennau cyfryngau cymdeithasol eu hunain i gyrraedd eu cymunedau: mae hyn bellach yn ofyniad contract ac mae wedi gweithio'n effeithiol.<br><br>Mae'r Garfan Datblygu Chwarae yn postio syniadau ar gyfer chwarae bob mis ac wedi datblygu fideo sy'n pwysleisio ei bwysigrwydd | Gall fod yn anodd llywio DEWIS ac dyw ddim wedi'i ddiweddaru bob amser<br><br>Mae'r Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd (GGD) yn diweddaru ynghylch achlysuron/darpariaethau gwasanaethau unigol ar gais, ac mae modd i hyn arwain at gyfyngu o ran darparu gwybodaeth<br><br>Dyw gwerth chwarae ddim yn cael ei werthfawrogi'n gyson gan y sawl sy'n gwneud penderfyniadau allweddol ac felly dyw ddim yn cael ei ystyried bob amser wrth lunio polisïau.<br><br>Hyn a hyn o ddulliau wedi'i seilio ar chwarae sydd o ran gweithgareddau sy'n pontio'r cenedlaethau | Bydd y Gwasanaeth Gwybodaeth i Deuluoedd yn casglu manylion y ddarpariaeth ac yn diweddaru defnyddwyr y gwasanaeth cyn pob gwyliau ysgol gydag un amserlen o achlysuron yng nghwm Rhondda, cwm Cynon a chwm Taf.<br><br>Manteisio ar apiau rhianta ysgolion yn fodd effeithiol o rannu gwybodaeth sy'n ymwneud â chwarae â demograffig mawr<br><br>Ehangu cyfleoedd hyfforddi Chwarae anffurfiol y tu hwnt i'r gweithlu Chwarae-Ieuenctid drwy ddatblygu pecyn hyfforddi ar-lein i hyrwyddo 'Hyrwyddwyr Chwarae' ym mhob gwasanaeth Awdurdod Lleol<br><br>Cynnig hyfforddiant i staff ysgol nad ydyn nhw'n addysgu, h.y. goruchwylwyr amser cinio i hyrwyddo chwarae yn ystod y diwrnod ysgol<br><br>Chwarae Cymru i gyflwyno sesiwn i'r sawl sy'n gwneud penderfyniadau allweddol ynghylch dyletswyddau Awdurdodau Lleol o ran digonolrwydd chwarae | Costau hyfforddi sy'n codi yn sgil amser staff<br><br>Weithiau mae ymdeimlad o ymarfer ticio bylchau yn ymwneud ag ymgysylltu â rhieni/gwarcheidwaid; mae hyn wedyn yn llesteirio ansawdd a chyfanswm y wybodaeth sy'n cael ei chasglu. |

*Parhad

# Dadansoddi Themâu

| Cryfderau | Gwendidau | Cyfleoedd | Bygythiadau |
|---|---|---|---|
| Mae i chwarae ran amlwg mewn sawl achlysur teuluol cymunedol megis Picnic y Tedis, Gŵyl Aberdâr a'r Brathiad Mawr o Fwyd Cymru; gweithgareddau cyflenwi gwasanaethau perthnasol yn fodd o hyrwyddo pwysigrwydd chwarae/hamdden<br><br>Nifer uchel o ymatebion gan blant a phobl ifainc ar gyfer yr Arolwg Chwarae Mawr<br><br>Mae datblygiad ysgolion yr 21ain Ganrif yn sicrhau bod dyluniadau adeiladau yn galluogi cyfleoedd dysgu yn yr awyr agored, ac yn annog y rhain, yn enwedig felly yn ystod y Cyfnod Sylfaen.<br><br>Mae chwarae wedi'i nodi'n flaenoriaeth yn benodol felly o ran cyflawni'r amcan o ddatblygu 'Cymdogaethau Lleol Iach' yng Nghynllun Llesiant Cwm Taf, 2023-2028 | | | |

*Parhad

# Dadansoddi Themâu

| Cryfderau | Gwendidau | Cyfleoedd | Bygythiadau |
|---|---|---|---|
| Mae chwarae'n cael ei gydnabod yn nifer o bolisïau sy'n ffurfio'r Cynllun Datblygu Lleol, megis Seilwaith Cymunedol a Rhwymedigaethau Cynllunio, a Dylunio a Chreu Lleoedd, Diogelu a Gwella'r Amgylchedd Adeiledig.<br><br>Mae chwarae yn cael ei gydnabod drwy bolisïau Traffig perthnasol gyda'i bwysigrwydd yn cael ei ddangos drwy nifer o fentrau Traffig a Diogelwch Ffyrdd | | | |